Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ardal Gadwraeth Crughywel



Rhagfyr 2020

CYNNWYS

1		**Cyflwyniad**	**4**
1.1		Cefndir	**4**
1.2		Y Broses Arfarnu	**4**
1.3		Ymgynghori:	**5**
1.4		Adolygiad o ffiniau'r Ardal Gadwraeth	**5**
1.5		Cyd-destun Polisïau Cynllunio	**6**
2		**Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig**	**9**
3		**Lleoliad a Gosodiad**	**10**
4		**Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg**	**11**
5		**Dadansoddiad Gofodol**	**15**
6		**Ardaloedd Cymeriad**	**17**
	6.1	Canol y Dref	**18**
	6.2	Church Lane,	**23**
	6.3	Bridge Street a Lamb Lane	**27**
	6.4	Y Castell a Dwyrain Crughywel	**31**
	6.5	New Road a Gorllewin Crughywel	**36**
	6.6	Upper House Farm	**41**
	6.7	Riverside	**45**
7		**Cymeriad Pensaernïol**	**49**
	7.1	Arddull Adeiladu	**49**
	7.2	Arddull, Graddfa a Ffurf Adeiladau	**50**
	7.3	Defnyddiau	**50**
	7.4	Manylion Pensaernïol	**51**
	7.5	Strydwedd	**54**
8		**Asedau Treftadaeth Allweddol Dynodedig**	**57**
9		**Asedau Treftadaeth Allweddol Heb Eu Dynodi**	**59**
10		**Adeiladau Tirnod**	**62**
11		**Defnyddiau a Gweithgareddau**	**65**
12		**Mannau Gwyrdd a Bioamrywiaeth**	**67**
13		**Llwybrau a Symudiadau**	**70**

14	**Problemau a Chyfleoedd**	**71**
15	**Argymhellion Rheoli**	**72**

Ffynonellau Gwybodaeth

Geirfa o Dermau Pensaernïol

Atodiadau

Atodiad 1 - Cyfyngiadau cynllunio ychwanegol mewn ardaloedd cadwraeth

Atodiad 2 – Newidiadau i ffiniau'r ardal gadwraeth

Atodiad 3 – Atodlen o adeiladau rhestredig a Henebion Cofrestredig yng Nghrughywel

Atodiad 4 – Atodlen o asedau treftadaeth allweddol heb eu dynode

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

Ardaloedd cadwraeth yw ardaloedd sy'n cael eu cydnabod am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i benderfynu pa rannau o'u hardal sy'n 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu hymddangosiad' a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth.

Dynodir ardaloedd cadwraeth am eu hansawdd yn gyffredinol yn hytrach na thrwy ganolbwyntio ar adeiladau unigol. Maen nhw'n gymysgedd o nodweddion hanesyddol positif yr ardaloedd hynny, gan gynnwys grwpiau o adeiladau, y gofodau rhwng adeiladau, defnyddiau, ffiniau, golygfeydd, llwybrau, mannau agored a defnydd tir, ar hyn o bryd ac yn y gorffennol. Mae'r nodweddion hyn yn cyfuno i ffurfio diddordeb arbennig sy'n haeddu statws ardal gadwraeth.

Mae gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd i amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth rhag datblygiadau a fyddai'n niweidio eu cymeriad hanesyddol neu bensaernïol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Trwy adolygu Ardaloedd Cadwraeth yn rheolaidd gellir sicrhau fod yr ardal ddynodedig yn dal i ddangos diddordeb pensaernïol a hanesyddol clir, yn dangos a ddylid newid ffiniau'r ardal gadwraeth ai peidio a hefyd ddangos mesurau y gellid eu cymryd i wella ac amddiffyn yr Ardal.

Mae Ardal Gadwraeth Crughywel, yn un o bum ardal gadwraeth ym Mannau Brycheiniog a gafodd ei dynodi yn gynnar yn y 70au. Cyn yr adolygiad hwn, roedd yr ardal gadwraeth yn cynnwys Llangatwg. Erbyn hyn, mae gan Langatwg ei hardal gadwraeth ei hunan.

Bydd arfarniad o'r ardal gadwraeth yn diffinio ansawdd yr ardal a'r hyn sy'n cyfiawnhau ei statws fel ardal gadwraeth. Mae arfarniad clir a chynhwysfawr o'i chymeriad hefyd yn gosod sail gadarn ar gyfer cymryd penderfyniadau rheoli datblygu ac ar gyfer datblygu mentrau i wella'r ardal. Mae'n galluogi datblygu fframwaith polisi cadarn ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol ac ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio a chynigion eraill ar gyfer newid. Gall arfarniad fod yn offeryn addysgiadol a gall hefyd gefnogi ceisiadau am arian ar gyfer mentrau. Ar hyn o bryd, does gan Ardal Gadwraeth Crughywel ddim arfarniad cyfoes.

Mae dynodiad fel ardal gadwraeth yn gosod rhai cyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol yr Awdurdod Cynllunio. Mae gwybodaeth bellach yn Atodiad 1.

1.2 Y Broses Arfarnu

Mae'r adolygiad hwn o Ardal Gadwraeth Crughywel wedi:

- adolygu ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth ac asesu a ddylid eu newid.
- ystyried sut y tyllid rhannu ardaloedd cadwraeth Crughywel a Llangatwg yn ddwy.
- nodi'r elfennau hynny yng Nghruhywel sy'n cyfrannu at neu'n amharu ar gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth.
- mesurau arfaethedig i gynnal neu wella cymeriad, hynodrwydd a syniad o le positif Crughywel.

Mae'r ddogfen arfarnu'n dilyn y cyngor yn TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, a'r canllawiau sydd i'w ganlyn 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru'.

1.3 Ymgynghori

Cychwynnodd ymgynghoriad 12 wythnos ar yr arfarniadau drafft ar gyfer Crughywel a Llangatwg a'r newidiadau arfaethedig i ffiniau'r ardal gadwraeth ar 28 Tachwedd 2019. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys gosod Rhybudd yn rhifyn 28.11.19 y Brecon and Radnor Express, cynnal dwy arddangosfa gyhoeddus, anfon llythyrau at ymgynghoreion a rhanddeiliaid statudol ac anfon llythyrau at eiddo oedd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i ffiniau'r ardal gadwraeth.

Lle'r oedd yn bosibl, cynhwyswyd adborth o'r ymgynghoriad yn fersiwn derfynol arfarniad yr ardal gadwraeth.

1.4 Adolygiad o ffiniau'r ardal gadwraeth

Y canlyniad allweddol o'r adolygiad o'r ardal gadwraeth yw rhannu'r ardal gadwraeth wreiddiol. Golyga hyn fod gan Grughywel a Llangatwg eu hardaloedd cadwraeth eu hunain, yn hytrach na rhannu'r ffin. Mae gan y ddau anheddiad eu nodweddion penodol eu hunain sy'n haeddu ystyriaeth fanylach. Trwy rannu'r ardal gadwraeth yn ddwy ceir mwy o gyfle i gynnal arfarniad ardal gadwraeth sy'n cynnwys asesiadau manwl wedi'u teilwra ar gyfer nodweddion y ddau anheddiad.

Roedd yr arolwg hefyd yn argymell newidiadau ychwanegol i'r ffin yng Nghrughywel. Mae'r ffin wedi cael ei newid i gynnwys ochr orllewinol o Llanbedr Road a Rectory Road ac ardal ehangach o Bullpit Meadows. Cafodd Llanbedr Road a Rectory Road eu cynnwys yn bennaf oherwydd eu diddordeb pensaernïol a'u cysylltiad â thwf Crughywel fel maestref ym y 19eg ganrif. Mae Bullpit Meadws wedi'u cynnwys oherwydd ei fod yn fan agored pwysig ym mlaendir y dref a hefyd oherwydd ei gysylltiad gyda'r bont hanesyddol.

Mae'r datblygiad tai modern yn 1-10 Llys Yr Afon a Glan Yr Afon oddi ar Castle Road wedi eu tynnu o'r Ardal Gadwraeth. Pan ddynodwyd yr ardal gadwraeth gyntaf, roedd Glanyrafon, plasty bychan o'r 19eg ganrif, yn dal yno. Erbyn y 1980'au, roedd tai modern wedi'u hadeiladu ar ei diroedd ac ym 1993 rhoddwyd caniatâd i ddymchwel Glanyrafon a chodi 10 anheddiad yn ei le. Mae'n debyg fod yr ardal wedi'i chynnwys yn wreiddiol yn yr ardal gadwraeth oherwydd y plasty hanesyddol. Roedd y rhan hon o'r ardal gadwraeth wedi'i newid yn ddi-droi'n ôl cyn ffurfio Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac nid yw'r ystâd dai'n cyfrannu at ansawdd yr ardal gadwraeth. Mae wal uchel yr ardd, sydd wedi goroesi Glanyrafon ei hunan, yn dal o fewn yr ardal gadwraeth.

Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bwriedid tynnu rhan o Orchard Lane o'r ardal gadwraeth. Ar ôl derbyn nifer o wrthwynebiadau, adolygwyd Orchard Lane ymhellach a dod i'r casgliad y dylai'r ffin bresennol aros yn ei lle. Ceir golygfeydd pwysig o Eglwys Sant Edwmnd o'r rhan hon o Orchard Lane ac mae'r ardal yn berthnasol i osodiad yr eglwys.

Mae map yn dangos y newidiadau i ffiniau'r ardal gadwraeth yn Atodiad 2

Dangosir ffin newydd yr ardal gadwraeth yn Ffigwr 1.

1.5 Y cyd-destun Polisi Cynllunio

Mae yna sawl dogfen bolisi cynllunio sy'n berthnasol i Grughywel a'i amgylchedd adeiledig:

Dangosir y polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru. Polisi Cynllunio Cymru sy'n gosod y canllawiau cynllunio strategol ac mae Pennod 9: Cadwraeth yr Amgylchedd Hanesyddol yn dangos y polisi cyffredinol ar gyfer: adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau hanesyddol, Henebion Cofrestredig ac olion archeolegol.

Mae Deddf Lleisiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus. Gall ardaloedd cadwraeth, o'u hamddiffyn a'u gwella'n iawn, wella ansawdd bywyd a llesiant pawb.

Mae Canllawiau Arferion Gorau Cadw: Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru (2017) yn dangos y canllawiau arferion gorau ar gyfer dynodi, arfarnu a rheoli ardaloedd cadwraeth.

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fis Rhagfyr 2013. Mae'r cynllun yn dangos y polisïau a'r cynigion ar gyfer arwain datblygu yn y Parc Cenedlaethol o 2007 tan 2022. Y polisi sy'n berthnasol i ardaloedd cadwraeth yw Polisi 19.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi Crughywel fel un o'r anheddau Allweddol yn y Rhanbarth. Mae'r Cynllun yn dangos gweledigaeth 15 mlynedd ar gyfer y dref, sy'n cynnwys cydnabod ei phensaernïaeth hanesyddol a sicrhau y bydd datblygiadau newydd yn cyd-fynd ag ansawdd uchel treftadaeth yr adeiladau hanesyddol. Mae Polisi K LP2 Datblygu Priodol Anheddiad Allweddol yn gofyn i ddatblygiadau ar gyfer datblygu beidio ag amharu ar y dreftadaeth ddiwylliannol.

Mae Canllawiau Wynebau Siopau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dangos sut y mae dyluniadau o ansawdd da yn helpu i gadw cymeriad traddodiadol mannau mân-werthu'r Parc, sy'n eu gwneud yn lleoedd deniadol i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr.

Mae Asesiad Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2012 yn nodi mathau o dirwedd ar draws y Parc Cenedlaethol ac yn ystyried y gwahanol gydrannau sy'n cyfrannu at gymeriad pob math o dirwedd, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig. Mae proffil pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn cynnwys strategaeth reoli ac argymhelliad o ganllawiau rheoli i amddiffyn a chryfhau cymeriad ei dirwedd.

Mae polisïau manwl yng Nghynllun Cymunedol Crughywel (2017) ynghylch talu sylw i broblemau yn y dref. Cafodd y cynllun ei gynhyrchu gan y gymuned ac mae'n dangos y problemau a'r amcanion a nodwyd gan drigolion a rhanddeiliaid. Mae'r Bennod Amgylchedd yn nodi gweithredu fel a ganlyn: 'Cefnogi cynnal trefwedd o ansawdd uchel drwy bolisïau a phenderfyniadau'r cynllun Datblygu Lleol ac adolygu'r Ardal Gadwraeth gan fanteisio i'r eithaf ar gyfraniadau datblygu.



Ffigwr 1:
Ardal Gadwraeth Crughywel

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

Cymeriad Crughywel



2. CRYNODEB O DDIDDORDEBAU ARBENNIG

Tref farchnad hanesyddol yw Crughywel a ddatblygodd yn ystod y canol oesoedd, yn wreiddiol o amgylch castell Alisby. Gellir dal i weld cynllun gwreiddiol y dref, yn enwedig y Castell, y Stryd Fawr a'r Farchnad, hyd heddiw.

Mae gan y dref dreflun diddorol a deniadol sydd wedi'i greu gan batrwm y strydoedd, y topograffeg, amrywiaeth yr adeiladau a'r cymysgedd o ddefnyddiau yn y dref. Mae yna ardal fasnachol gref gyda llawer o siopau annibynnol yng nghraidd canol y dref sy'n darparu ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.

Mae'r dref yn cynnwys cymysgedd o adeiladau o'r canol oesoedd ymlaen, gan gynnwys bythynnod gwerinol, grwpiau o adeiladau wedi'u dylunio fel nodwedd bensaernïol, tai moethus, adeiladau trefol a filas bychan. Mae cyfran uchel o adeiladau canol y dref wedi'u rhestru.

Cerrig a rendr yw'r prif ddeunyddiau adeiladu, y ddau'n ychwanegu amrywiaeth a diddordeb. Mae llawer iawn o gerrig yr ardal wedi'u defnyddio, sy'n adlewyrchu ei daeareg.

Crëir cyferbyniad diddorol rhwng, ar y naill law, agosatrwydd y ffurf drefol, cymharol ddwys, yng nghraidd canol y dref ac, ar y llaw arall, y mannau gwyrdd, cyhoeddus a phreifat cyfagos. Mae'r man agored sy'n gysylltiedig â'r Castell yn bwysig i'w osodiad ac mae'n rhan o rwydwaith ehangach o fannau agored sy'n cynnwys adnoddau hamdden ffurfiol. Mae'r mannau agored yn ac ar ymylon y dref yn bwysig oherwydd eu gwerth hamdden a'r cyfraniad y maen nhw'n ei wneud i gymeriad yr ardal gadwraeth.

Nodwedd allweddol o'r dref yw'r ffordd y mae'r topograffeg yn cyfrannu at gymeriad yr ardal gadwraeth, yn enwedig o edrych o'r de-orllewin. Mae llawer o'r dref ar lethr ysgafn uwchben afon Wysg gyda'r adeiladau'n camu i fyny'r bryn mewn trefniant deniadol wrth edrych o bell ac agos.

Mae'r dref yn elwa o fod mewn tirwedd o ansawdd uchel, gerllaw afon Wysg gyda Phen Cerrig Calch a Chrug Hywel yn gefndir i'r gogledd a Mynydd Llangatwg i'r de. Gellir gweld y tirwedd o'i hamgylch dros bennau toeau a rhwng adeiladau a hynny drwy'r dref.

Ymhelaethir ar y themâu hyn yn y penodau sy'n dilyn.

Golygfa ar draws y dref o domen y Castell

3. LLEOLIAD A GOSODIAD

Mae Crughywel yn nyffryn Wysg, ar ochr ddwyreiniol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tua 22 cilometr i'r de-ddwyrain o Aberhonddu a 9 cilometr i'r gogledd-orllewin o'r Fenni. Mae mewn man strategol ar godiad tir uwchben ochr ogleddol afon Wysg ac ar ffordd hanesyddol o'r gorllewin i'r dwyrain, sydd, erbyn hyn, yn gefnffordd yr A40.



Ffigwr 2 – Map Lleoliad

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Date: 18/08/2019

Mae yna gysylltiad ffisegol a gweledol rhwng Crughywel a'i leoliad mewn tirwedd o ansawdd da. Gelwir y rhan hon o ddyffryn Wysg yn Asesiad Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Awst 2012) yn 'Dyffryn Dwyreiniol Wysg', sy'n ymestyn o Bencelli i'r gogledd-orllewin o Grughywel i ffin ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol ger y Fenni. Ceir y disgrifiad canlynol o Ddyffryn Wysg yn yr Asesiad Cymeriad Tirlun. *'Mae'r dyffryn digyfnewid, toreithiog hwn yn gyferbyniad i'r bryniau agored a chreigiog o'i gwmpas. Mae gwaelod gwastad, llydan, y dyffryn a'i glytwaith o gaeau yn llwybr cludo pwysig gyda'i ffyrdd a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Yn dirwedd amaethyddol ffrwythlon, mae plannu coed wedi'u plannu mewn tir parc a'r mannau coediog presennol hefyd yn dylanwadu'n drwm ar Ddyffryn Wysg. Mae hen hanes i anheddu yn y dyffryn, sy'n cynnwys sawl pentref, llawer o ffermydd a phlastai gyda'r tiroedd o'u hamgylch. Mae cyfres o gaerau o'r Oes Haearn yn edrych dros y dyffryn.*

Yn edrych dros y dref mae llethrau Pen Cerrig Calch a bryncyn pen gwastad Crug Hywel i'r gogledd a Mynydd Langatwg i'r de. Mae'r tir uwch, mwy creigiog, uwchben y dref yn cyferbynnu â thirwedd fwy addfwyn a gwyrdd llawr y dyffryn a'i lethrau isaf. Ar lawr y dyffryn a'i lethrau isaf, amaethyddiaeth yw'r defnydd tir pennaf o gwmpas y dref (tir glas yn bennaf gyda pheth cnydau âr) ond mae yna hefyd dir parc syn gysylltiedig ag ystadau, anheddiadau llai, ffermydd a mannau coediog, O bwysigrwydd penodol i osodiad agosaf Crughywel yw afon Wysg a dolydd llawr y dyffryn i'r de-orllewin o'r dref a'r

tir uwch i'r gogledd, yn enwedig Crug Hywel, y gellir ei weld hyd yn oed o galon canol y dref. Mae holl elfennau'r tirwedd yn cyfuno'n lleoliad o safon uchel i'r dref.

Golygfa o'r de at Crughywel o fewn lleoliad ei dirwedd. Mae pentref Llangatwg yn y blaendir

Mae pentref Llangatwg ychydig i'r de-orllewin o'r dref ac mae yna berthynas agos rhwng y ddau anheddiad

4. DATBLYGIAD HANESYDDOL AC ARCHAEOLEG

Daw'r enw Crughywel o Grug Hywel, y bryncyn gerllaw, ond yr hen enw ar y dref oedd Ystradyw - dyffryn y coed ywen. Datblygu'n araf wnaeth Crughywel ar ôl adeiladu'r castell, roedd yn edwino erbyn diwedd yr oesoedd canol ac yna adferodd ar ôl hynny.

Mae yna beth amhendantrwydd ynghylch pa bryd y dechreuodd Crughywel ddatblygu fel anheddiad. Efallai fod yna ryw fath o anheddiad yn gysylltiedig a'r mwnt a'r beili a godwyd tua 1190, sef tarddiad Castell Crughywel, neu Gastell Alisby fel y'i gelwid, ar ôl Gerald de Alisby a oedd yn llywodraethwr yn ystod y 1320au. Ond mae yna ddamcaniaeth hefyd fod y cysylltiad rhwng y ganolfan wreiddiol a mwnt Maescelyn, 1.5 cilometr i'r gogledd-orllewin. Damcaniaeth arall yw fod y ddau fwnt yn cael eu defnyddio yr un pryd. Os felly, rhoddwyd heibio defnyddio'r mwnt ym Maes-celyn a symud at Gastell Alisby yn y lleoliad mwy strategol a defnyddiol ar y gefnen uwchben afon Wysg.

Roedd Castell Crughywel yn un o gyfres o gestyll a adeiladwyd ar hyd y dyffryn gan y Normaniaid i'w hamddiffyn eu hunain rhag y Cymry. Roedd y mwnt a'r beili'n cael eu dal ar y dechrau gan deulu'r Tuberville, ond fe'u trosglwyddwyd ym 1243 trwy briodas i Sir Grimbald Pauncefote, a gododd dŵr cerrig yn lle'r gaer bren a chodi waliau cerrig o amgylch y beili i'r de. Ym 1403, ymosododd Owain Glyndŵr ar y castell a dinistrio rhan ohono. Roedd yn bosibl byw mewn rhan o'r castell am tua 100 mlynedd ar ôl hynny, ond, yn y pendraw, fe'i gadawyd. Defnyddiwyd rhai o gerrig y castell yn y 18eg a'r 19eg ganrif i ail adeiladu rhan o'r Stryd Fawr, er roedd adfeilion y castell yn llawer mwy cyflawn mor ddiweddar a'r 19eg ganrif nag y maen nhw heddiw. Adfeiliodd y castell ymhellach yn y 1930au pan ddymchwelodd rhan o'r tŵr.

O ran datblygiad y dref, efallai y bu yna beth datblygiad heb ei reoli y tu allan i amddiffynfeydd y castell yn fuan ar ôl ei adeiladu ond mae'n debyg yr esblygodd y datblygiad a gynlluniwyd yn raddol dros ddegawdau. Mae'n wybyddus fod yna dref fechan, yn bendant, yn bodoli erbyn 1280 pan dderbyniodd y trigolion hawl i godi murdreth (treth i adeiladu a thrwsio muriau'r dref) a derbyn hefyd gadarnhad o farchnadoedd a ffeiriau'r dref gan Edward 1. Yn 1282, cafodd y dref statws bwrdeistref. Does dim tystiolaeth wedi goroesi uwchben y ddaear o fodolaeth y waliau er bod yna ddamcaniaeth efallai mai Lamb Lane, a oedd, yn wreiddiol, yn rhedeg ymhellach i'r gorllewin nag y mae heddiw, oedd terfyn

gorllewinol y dref. Mae'r murdreth yn awgrymu fod wal y dref wedi cael ei chynllunio, o leiaf. Ond, hyd heddiw, does dim tystiolaeth wedi'i ddarganfod o'r wal wrth gloddio ar gyfer adeiladu o amgylch y dref. Ond, wrth gwrs, gallai tystiolaeth newydd ymddangos mewn archwiliadau archeolegol yn y dyfodol.

Dirywiodd y dref yn niwedd yr oesoedd canol ac, erbyn 1610, doedd hi ddim bellach yn cael ei rhestru fel tref farchnad. Efallai fod y difrod wnaeth Owain Glyndŵr i'r castell yn nechrau'r 15eg ganrif wedi cyfrannu at hynny.

Datblygodd Crughywel ar lwybr strategol, rhan o system ffyrdd y porthmyn i yrru gyrrau o wartheg i farchnadoedd yn Lloegr, weithiau mor bell â Llundain. Mae'n debyg fod y ffyrdd hyn wedi datblygu o ddiwedd yr oesoedd canol ymlaen a'u bod yn eu hanterth yn y 18fed ganrif ac yn gynnar yn y 19eg ganrif. Roedd un o'r llwybrau traddodiadol hynny yn croesi Cymru o'r gorllewin i'r dwyrain, yn rhedeg o ben Cwm Tawe ar draws ochrau gogleddol Bannau Brycheiniog, oddi yno ar hyd Dyffryn Wysg a thrwy Crughywel a'r Fenni i Drefynwy. Roedd ffordd y porthmyn yn dilyn, fwy na lai, lwybr cefnffordd yr A40 heddiw.

Roedd y pridd ffrwythlon ar lawr y dyffryn, yn ogystal â'r tir pori ar yr ucheldir gerllaw, yn amodau ardderchog ar gyfer amaethyddiaeth. Roedd y ffaith ei bod yn gyfleus ar lwybr y porthmyn â rhan fawr mewn adfer y dref, yn enwedig y cyfleoedd i werthu cynnyrch amaethyddol i farchnad ehangach. Un ffactor arall yn hynny oedd gwella'r ffordd yn y 18fed ganrif ac yn gynnar yn y 19eg ganrif. O ganlyniad i hynny, cafodd gwasanaethau'r goets fawr o Lundain trwy Gaerloyw, Trefynwy a'r Fenni eu hymestyn i orllewin Cymru. Cafodd tafarndai'r Goets Fawr eu sefydlu ar hyd y daith a daeth Crughywel yn un o'r mannau aros allweddol gyda nifer o sefydliadau yn y dref yn cynnig llety a stablau. Roedd Gwesty'r Bear yn un o'r sefydliadau hynny.

Pan adeiladwyd camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn gynnar yn y 19eg ganrif ar ochr gogleddol Llangatwg, agorwyd yr ardal i farchnadoedd ymhellach i ffwrdd, roedd cynnyrch lleol yn cael ei allforio a hefyd nwyddau'n dod i mewn, yn enwedig eitemau trymach oedd yn anos eu cludo ar y ffordd.

Cafodd rhannau o'r dref eu hail ddatblygu yn y 18fed a 19eg ganrif gydag adeiladau modern yn disodli'r rhai oedd yno ers y canol oesoedd. Erbyn 1875 disgrifiad y Directory of South Wales gan Worrall oedd: "Mae ymddangosiad y dref yn lân a pharchus ac mae'n cynnwys nifer o leoedd busnes rhagorol, sefydliad bancio a Neuadd y Dref osgeiddig". O ganol y 19eg ganrif daeth gwell cyfleustodau, gan gynnwys gwaith nwy trefol a chyflenwad dŵr newydd.

Roedd y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarparwyd yng Nghrughywel yn cyfarfod gofynion dyddiol trigolion y dref yn ogystal â rhai'r pentrefi a'r pentrefi llai, cyfagos. Roedd prif ardal fasnach y dref ar hyd Bridge Street a'r Stryd Fawr ac yn ymestyn ar hyd Beaufort Street. Roedd y gwaith oedd ar gael yn cynnwys cynhyrchu brethyn ar raddfa fechan; twristiaeth, yn seiliedig yn bennaf ar bysgota brithyll ac eog; amaethyddiaeth; gwaith crefftwyr; manwerthu a gweini yn y plastai a'r ystadau gwledig yn y dyffryn.

Ddaeth y rheilffyrdd oedd yn cael eu hadeiladu yn y 1860au ddim i Grughywel. Fodd bynnag, cafodd yr anfantais hwn ei liniaru gan ffordd y goets fawr a oedd yn dal yn brysur gyda gwasanaethau danfon nwyddau a chario teithwyr yn rheolaidd. Roedd Crughywel mewn lle cyfleus a datblygodd yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid oedd yn ymweld â'r ardal a pharhaodd hynny pan daeth moduron yn fwy cyffredin. Mae yna ffotograff o Westy'r Bear o'n gynnar yn yr 20fed ganrif yn dangos fod yr arwydd 'Post Horses' dros y bwa at iard y stablau wedi'i ddisodli gan arwydd newydd, 'Garage'. Mae hysbyseb

cynnar gan y gwesty'n cynnig stablau ond mae hefyd yn pwysleisio 'ffyrdd da ar gyfer moduro a beicio yng nghanol y golygfeydd gorau yn Ne Cymru.'

Gellir gweld datblygiad y dref mewn cyfres o fapiau cynnar. Y map cynharaf ar gael ar brint yw Map Ystad Beauford 1587. Mae'n canolbwyntio ar Gastell Alisby a'i diroedd. Mae'r map hwn a Map Ystâd 1760 gan Meredith Jones yn dangos rhwydwaith sylfaenol o ffyrdd y mae'n bosibl ei adnabod heddiw.

Mae map 1780 yn dangos datblygiad y Stryd Fawr a Market Place a'r lleiniau bwrdais o bopty'r Stryd Fawr. Mae adeilad yng nghanol Market Place, adeiladau ar ran o Castle Road ac yn parhau i lawr Bridge Street hyd at y bont. Yr adeg hynny, doedd New Road ddim wedi'i hadeiladu.

Ffigwr 3: Map Ystâd Beaufort 1587
Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Ffigwr 4: Map Ystâd Meredith Jones 1760
Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ffigwr 5 - Map y Degwm 1844
Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Ffigwr 6 - Map Arolwg Ordnans, Argraffiad Cyntaf

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, ail-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Mae map y degwm 1844 ac argraffiad cyntaf o'r map arolwg ordnans yn dangos patrwm datblygu a gosodiad ffyrdd sydd i'w gweld heddiw. Mae New Road yn cael ei dangos erbyn hyn, sef y brif ffordd i'r dref ac ar draws afon Wysg. Does dim llawer o ddatblygiad ar ochr ddwyreiniol y dref, er bod Green Hill a Glan-yr-Afon, dau blasty buchan (ddim yn bresennol bellach) yn cael eu dangos. Mae'r caeau a'r perllannau'n amlwg i'r gogledd a'r dwyrain o Upper House Farm. Ehangodd Crughywel yn arwyddocaol yn ail hanner yr 20fed ganrif yn enwedig ar ochr ogledd-ddwyreiniol y dref. Un datblygiad modern sy'n haeddu sylw yw'r Televillage o'r 1990au yn Upper House Farm. Roedd hwn yn brosiect arloesol ar y pryd oedd yn galluogi pobl i weithio o gartref. Wrth i dechnoleg symud ymlaen, dyw'r math hwn o ddatblygiad tai ddim yn unigryw bellach, ond roedd yn torri tir newydd ar y pryd.

5. DADANSODDIAD GOFODOL

O amgylch y Farchnad a'r Stryd Fawr y mae craidd hanesyddol y dref o amgylch y Farchnad a'r Stryd Fawr ac mae'n ymestyn i lawr Bridge Street at yr afon. Hefyd yn y craidd hanesyddol, mae'r Castell i dde-ddwyrain y Stryd Fawr ac Eglwys Sant Edmwnd i'r gogledd-orllewin. Mae'r Ardal Gadwraeth hefyd yn cynnwys adeiladau o gyfnodau mwy diweddar yn hanes y dref sy'n ymestyn i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd ar hyd cefnffordd yr A40 o'r Fenni i Aberhonddu.

Mae ardal gadwraeth Crughywel yn amrywiol ac mae yna ardaloedd sydd â'u cymeriad eu hunain y tu fewn i'r ffiniau. Er bod y rhain yn wahanol i'r ardaloedd cyfagos, maen nhw i gyd yn uno i ffurfio cymeriad cyffredinol ardal hanesyddol y dref.

Mae Crughywel yn anheddiad wedi'i gynllunio gyda'r craidd hanesyddol y dangos patrwm grid o strydoedd ar ongl sgwâr a'i gilydd. Yma, mae patrwm y datblygiad yn dangos undod gyda blaenau'r adeiladau'n ddi-fwlch a'r rhan fwyaf yn ymestyn at gefn y palmant. Mae hyn yn creu teimlad caeedig cryf.

Mae'r datblygiadau diweddarach ar hyd yr A40 y tu hwnt i graidd y dref at ei gilydd yn llai dwys, at ei gilydd. Mae yna'n dal deimlad caeedig, yn aml oherwydd y mathau o derfynau, ond mae'r eiddo'n debycach o fod wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd ac ar leiniau helaethach.

Elfen bwysig o gymeriad y dref yw'r man gwyrdd ger canol y dref. Mae'r dolydd sy'n rhedeg gydag afon Wysg, mannau cyhoeddus megis y tiroedd o amgylch adfeilion y castell, y tiroedd hamdden i'r dwyrain o'r castell a hefyd y gerddi preifat yn cyfrannu at ansawdd gwyrdd ac agored rhannau o'r dref.

Mae'r topograffeg wedi dylanwadu'n drwm ar y ffordd y datblygodd y dref. Mae llawer o'r dref ar lethr ysgafn uwchben afon Wysg gyda'r adeiladau'n camu i fyny'r bryn mewn trefniant deniadol o bell ac agos. Mae golygfeydd o'r dref o lawr y dyffryn ac o'r tir uwch yn amlygu'r gwahaniaethau yn y patrymau datblygu ar draws y dref. Dim ond yn yr 20fed ganrif y dechreuodd y dref dyfu o ddifrif i fyny ochrau'r dyffryn.

I ddod i ddeall cymeriad penodol gwahanol rannau o'r dref, mae'n ddefnyddiol ei his-rannu i wahanol ardaloedd cymeriad fel y gellir addasu gwaith rheoli, gan gynnwys rheoli datblygiadau, ac ymateb i'w gwahanol nodweddion.

Bridge Street – stryd gul gyda datblygiad dwys o bobtu sy'n creu synnwyr caeedig cryf

Beaufort Road – stryd fwy llydan gyda chymeriad gofodol gwahanol i Bridge Street

6. ARDALOEDD CYMERIAD

Dynodir ardaloedd cadwraeth am eu nodweddion arbennig, ond gallai hefyd fod yna ardaloedd o fewn yr ardal ddynodedig gyda'u nodweddion penodol eu hunain. Drwy nodi'r 'ardaloedd cymeriad' hyn a dod i ddeall yr elfennau sy'n cyfrannu at eu cymeriad y deuir i ddeall yr ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd.

Nodwyd saith ardal gymeriad yng Nghrughywel:

- Canol y Dref
- Church Lane,
- Bridge Street a Lamb Lane
- Y Castell a Dwyrain Crughywel
- Gorllewin Crughywel
- Upper House Farm
- Riverside

Dangosir yr ardaloedd cymeriad hyn ar y map isod. Er bod pob ardal yn cael ei diffinio gan linnell, mewn gwirionedd maen nhw'n fwy cymhleth na hynny; mae yna gryn orgyffwrdd gyda'r ardaloedd cymeriad cyfagos a gallai fod yna osodiad ehangach sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau ardal gadwraeth. Hefyd, nid yw'r cymeriad o fewn ardaloedd cadwraeth o angenrheidrwydd yr un fath. Ceir trosolwg o nodweddion allweddol pob ardal gadwraeth yn yr adrannau canlynol:



Ffigwr 7 - Ardaloedd Cymeriad

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Ardal Gymeriad

Canol y Dref



6.1 Canol y Dref

Cyflwyniad

Canolbwynt ardal gymeriad Canol y Dref yw'r Stryd Fawr a Market Place, pen gorllewinol Beaufort Street, Tower Street, rhan o Church Lane a rhan fer o Standard Street ar ochr ogleddol Market Place. Mae canol y dref yn cael ei diffinio i raddau helaeth gan batrwm datblygu dwys. Mae yna wahaniaeth amlwg rhwng prysurdeb y Stryd Fawr a Market Place a thawelwch y strydoedd cefn megis Church Lane, Standard Street a Tower Street. Yng nghraidd canol y dref, defnydd masnachol sydd fwyaf cyffredin o lawer ar lefel y llawr gwaelod gyda blaenau siopau a blaenau tafarnau traddodiadol yn creu strydwedd diddorol a byrlymus. Yn ychwanegol at ddefnyddiau masnachol, mae yna hefyd anheddiadau ar gyrrion y dref, yn amrwyio o dai teras cyffredin i dai mawr moethus.



Ffigwr 8:
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad Canol y Dref

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Ffurf a gosodiad yr adeiladau

Mae gosodiad y strydoedd hyd heddiw'n adlewyrchu patrwm y strydoedd yn y canol oesoedd a gelir dal i weld lleiniau bwrdais cul ar ochr orllewinol y Stryd Fawr ac, i raddau llai, ar yr ochr ddwyreiniol. Mae'r Stryd Fawr yn lledaenu ar ei phen gogleddol i ffurfio Market Place lle safai adeilad ar un adeg. Mae teimlad caeedig cryf i graidd canol y dref ar y Stryd Fawr gyda blaenau adeiladau yn rhes ddi-dor ar

Y Stryd Fawr yn culhau tua'r de

gefnau palmantau. Mae'r teimlad caeedig yn nodwedd sy'n uno'r ardal, ond mae yna amrywiadau o ran graddfa'r teimlad caeedig, sy'n ychwanegu amrywiaeth a diddordeb i ganol y dref. Er enghraifft, mae Tower Street a'r stryd sy'n culhau rhwng Webbs a gwesty'r Bear yn fwy caeedig o gymharu ag ehangder pen ogleddol y Stryd Fawr lle mae'n agor i ffurfio triongl Market Place neu Beaufort Road wrth iddi ddynesu at Market Place.

Mae yna gymysgedd o adeiladau 1.5, 2 a 3 llawr, amrywiadau mewn lled blaenau adeiladau ac mae'r amrywiadau yn ffurfiau'r toeau hefyd o ddiddordeb. Mae adeiladau cornel cryf yn nodwedd o ganol y dref, er enghraifft, ar gyffordd Tower Street a'r Stryd Fawr.

Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod

Mae canran uchel o adeiladau ardal gymeriad Canol y Dref wedi'u rhestru. Mae'r adeiladau yn yr ardal gymeriad yn gymysgedd diddorol sy'n cynnwys phensaernïaeth o'r cyfnodau Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd a hefyd adeiladau gwerinol wedi'u hadeiladau gyda'r cerrig tywod lleol. Mae yna enghreifftiau o derasau wedi'u cynllunio, darnau set pensaernïol stwco o ganol y 19eg ganrif a thai trefol mawreddog.

Mae blaenau siopau hanesyddol da ar lawer o'r adeiladau masnachol yng nghanol y dref. Mae'r rhain yn cyfrannu'n arwyddocaol at ansawdd canol y dref.

Mae Neuadd y Dref gradd II*, yn dyddio o 1833-4 ac wedi'i dylunio gan T H Wyatt, ac mae'n adeilad tirnod ar y Stryd Fawr. Ar raddfa lai, mae'r Ffynnon Goffa yn Market Place hefyd yn dirnod arwyddocaol. Wedi'u codi yn yr un cyfnod â Neuadd y Dref. mae 52 – 54, sy'n union gyferbyn, yn gwneud datganiad dramatig gyda'u dyluniad clasurol a'u pilastrau eiconig trawiadol. Mae'r ddau adeilad yn dyddio o'r adeg pan ail ffurfiwyd canol y dref ganol y 19eg ganrif. Darn set mwy cymedrol, ond diddorol

Adeiladau tri llawr ar y Stryd Fawr

Adeilad 1 ½ llawr ar Beaufort Road

Neuadd y Dref

Adeilad ar gornel y Stryd Fawr a Tower Street

serch hynny, yw'r teras wedi'i gynllunio a'r capel ar ochr gogledd-ddwyreiniol Tower Street, a adeiladwyd yn 1851–2 gan Syr Joseph Bailey yn gartrefi i'w weithwyr.

Mae yna grŵp cryf o adeiladau statws uchel ger y gyffordd â Tower Street a'r Stryd Fawr: Ivy Towers, The Dragon Hotel a Latham House, pob un wedi'i restru'n gradd II* ac yn enghreifftiau da o adeiladau Sioraidd cynnar.

Mae Clarence Hall yn Beaufort Street yn enghraifft dda o adeilad cyhoeddus Fictoraidd. Mae Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel (CRIC) o 2007 wedi'i wynebu gyda cherrig leol ac yn llwyddo i gyd-fynd â'r lleoliad hanesyddol. Adeilad o'r 20fed ganrif yw'r Castle Garage, atgof o'r dyddiau cynnar pan oedd cerbydau modur yn dechrau dod yn fwy cyffredin.

Mae nifer o dafarndai yn y dref a oedd, yn wreiddiol, yn dafarndai'r goets fawr pan oedd Crughywel yn arhosfan strategol. Tybir bod y Bear Hotel, sydd wedi'i restru yn gradd II*, yn dyddio'n wreiddiol o'r 15fed ganrif ac mae ar safle amlwg ar lwybr hanesyddol y goets fawr, gyferbyn â Market Place.

Mae Ivy Tower yn Tower Street, olion tŵr o gerrig rwbel, yn strwythur anarferol. Tybid yn wreiddiol mai dyma olion porth allanol Castell Crughywel ond dangosodd arolwg yn y 1990au mai ffoledd o'r 18fed / 19eg ganrif yw'r twr, er bod yna olion o dŷ o'r 15fed neu 16eg ganrif yn y cefn.

<u>Mannau Agored</u>

Prif gymeriad yr ardal yw ei datblygiad trefol trwchus. Mae Market Place yn fan trefol lle mae'r stryd yn ehangu ym mhen gogleddol y Stryd Fawr. Fodd bynnag, prin ei fod yn fan cyhoeddus erbyn hyn oherwydd fod cymaint o draffig arni. Mae wyneb bitwmen y ffordd wedi'i orchuddio gyda marciau ffordd a bolardiau sy'n cadw'r traffig i ffwrdd o'r

Teras wedi'i gynllunio ar Tower Street

Ivy Towers

The Bear Hotel

Ivy Tower

Ffynnon Coffa ac yn anffodus yn amharu ar y man pwysig hwn yng nghanol y dref.

Ychydig o fannau gwyrdd cyhoeddus sydd yng nghanol y dref; fodd bynnag, mae yna ambell 'boced' o fannau gwyrdd bychain lle mae seddi wedi'u gosod ac sydd wedi cael ychydig o dirlunio meddal: yr ardd wrth ochr y Llyfrgell yn Church Lane a'r ardal seddi wrth adeilad CRIC.

Er bod llai o erddi preifat i'w gweld o'r mannau cyhoeddus yn yr ardal hon, ble maen nhw i'w gweld, maen nhw'n lliniaru ymylon caletach yr amgylchedd drefol.

<u>Golygfeydd</u>

Mae dwyster datblygiad ar ddwy ochr y stryd yn creu golygfeydd cul ar hyd y stryd. Mae rhai, megis yr olygfa i'r dwyrain ar hyd Beaufort Street yn diflannu i'r pellter, ac eraill yn olygfeydd lle mae'r adeiladau'n eu cau. Enghraifft dda o olygfa gaeedig yw'r olygfa i'r gogledd ar hyd y Stryd Fawr sy'n dod i ben wrth yr adeiladau ar ochr ogleddol Market Place.

Mae yno hefyd enghreifftiau o olygfeydd wedi'u gwyro fel yr olygfa sy'n agor ar hyd Beaufort Street ac yn ymddangos fel pe byddai'n dod i ben yn Webbs, cyn i fwy gael ei ddatgelu wrth i'r ffordd droi rhwng yr adeiladau.

Fel mewn llawer o fannau eraill yn y dref, mae yna olygfeydd hirach i'r pellter at y tirlun o gwmpas dros bennau'r toeau ac mewn golygfeydd hir i lawr y stryd.

'Poced' o fan agored ger y llyfrgell

Golygfa ar hyd y Stryd Fawr yn cael ei chau gan linell o adeiladau y tu hwnt i'r Ffynnon Goffa.

Mae'r olygfa'n datblygu wrth i'r ffordd droi rhwng adeiladau . Gellir gweld golygfa fwy i'r pellter o'r tirwedd yn codi uwch ben yr adeiladau.



Ardal Gymeriad

Church Lane

6.2 Church Lane

Cyflwyniad

Mae ardal gymeriad Church Lane ychydig i'r gogledd-orllewin o'r Stryd Fawr ac yn canolbwyntio ar Eglwys Sant Edmwnd, ei thir a'i mynwent. Ffordd gul yw Church Lane sy'n cysylltu'r Stryd Fawr gyda New Road.



© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.
© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP
© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Ffigwr 9
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad Church Lane

Ffurf a gosodiad yr adeiladau

Mae'r hen ysgol, bythynnod deulawr a thai yn edrych dros dir yr eglwys a'r fynwent, gyda'r eglwys yn ganolbwynt. Mae'r adeiladau o bobtu'r stryd i'r gogledd a'r gorllewin yn amgáu'n naturiol o amgylch y ddau fan agored. Ond er mor amgaeedig, mae yna gryn wahaniaeth rhwng yr ardal hon a ffurf drefol, ddwys cymaint o graidd hanesyddol canol y dref.

Mae yna lwybrau troed yn cysylltu'r ardal hon gyda'r mannau o'i chwmpas. Un efen nodedig yw'r llwybr a'i rheiliau haearn rhwng tir yr eglwys a'r fynwent a Silver Lane, sy'n cysylltu â'r Stryd Fawr.

Mae terfynau cerrig rwbel tir yr eglwys, y fynwent ac ar ymyl y llwybr yn nodweddion pwysig yn yr ardal.

Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod

Yr adeilad pwysicaf yn yr ardal gymeriad hon yw Eglwys Sant Edmwnd. Fe'i sefydlwyd ym 1303 pan grëwyd y plwyf. Dyluniwyd yr eglwys ar arddull Gothig Addurnol ac mae wedi'i hadeiladu o gerrig tywod coch gyda tho o deils clai coch a cherrig mân y orchudd ar y tŵr pigfain. Mae eglwys i'w gweld fel y tirnod amlycaf o'r tir o'i chwmpas ond gellir ei gweld hefyd dros doeau ac o'r tir uchel o gwmpas y dref.

Mae Brick House, tŷ wedi'i restru'n gradd II, yn sefyll allan oddi wrth ei gymdogion oherwydd ei flaen stwco a'i ddyluniad clasurol.

Mae Llidiart y Fynwent dros y llwybr rhwng yr eglwys a'r fynwent yn rhan o wal derfyn y fynwent sydd wedi'i rhestru'n gradd II. Strwythur cymharol fechan yw Llidiart y Fynwent ond mae ei ddyluniad ac ansawdd y cerrig nadd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal ac mae'n dirnod yn yr ardal. Adferwyd y Llidiart yn 2018.

Nid yw'r Hen Ysgol a Thŷ'r Ysgol ynghlwm, sydd, mae'n debyg yn dyddio o ail hanner y 19eg ganrif, wedi'u rhestru ond maen nhw'n bresenoldeb positif ar ochr ogleddol Church Lane, gyferbyn â'r eglwys. Mae bwaon Adfywiad Gothig pigfain a thŵr bychan y gloch yn sefyll allan yn yr adeilad.

Mannau gwyrdd trefol

Mae tir agored yr eglwys a'r fynwent yn fan gwyrdd distaw y tu ôl i fwrlwm y Stryd Fawr a thraffig New Road i'r gorllewin. Mae'r coed yn yr ardal hon a hefyd mewn gerddi preifat yn cyfrannu at ansawdd wyrdd yr ardal. Nodweddion arbennig yw'r goeden ffawydd gopr ysblennydd a'r coed yw yn y fynwent.

Golygfa ar draws y fynwent

Ffin o wal gerrig ar ochrau lôn

Brick House

The Old School a School House

Golygfeydd

Mae yna olygfeydd braf, panoramig, ar draws tir yr eglwys a'r fynwent o'r tirwedd y tu hwnt i'r dref. Yn gyferbyniad, ceir cipolwg o olygfeydd mwy cartrefol drwy giatiau'r fynwent.

Mae Llidiart yr Eglwys ar Church Lane yn ffurfio golygfa i lawr y llwybr troed rhwng yr eglwys a'r fynwent. Mae yna hefyd olygfa ddiddorol ar hyd Church Lane tua'r Stryd Fawr.

Golygfa banoramig o'r fynwent

Coed ym mynwent Sant Edmund

Porth y fynwent a'r llwybr rhwng tir yr eglwys a'r fynwent

Golygfa trwy'r giât at New Road

Ardal Gymeriad

Bridge Street a Lamb Lane



6.3 Bridge Street a Lamb Lane

Cyflwyniad

Mae'r ardal gymeriad hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd trigiannol Bridge Street a Lamb Lane i'r de-orllewin o'r Stryd Fawr. Cyn adeiladu New Road, Bridge Street oedd yr hen ffordd i lawr at afon Wysg. Erbyn hyn, mae'n ffordd unffordd i gerbydau.

Er ei bod yn agos at y Stryd Fawr yng nghanol y dref ac at New Road brysur, mae gan yr ardal hon gymeriad cyffredinol ddistawach a mwy heddychlon. Fodd bynnag, ar adegau, mae traffig yn defnyddio Bridge Street fel llwybr at y Stryd Fawr a Castle Road yn tarfu ar y tawelwch hwn.



Ffigwr 10
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad Bridge Street a Lamb Lane

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.
© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP
© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Ffurf a gosodiad yr adeiladau

Stryd gul, droellog yw Bridge Street gyda bythynnod ar ei dwy ochr o'r 18fed a dechrau'r 19fed ganrif. Adeiladau deulawr yn bennaf yw'r rhain sy'n cyrraedd cefn y palmant ac yn rhoi synnwyr caeedig ac agos atoch cryf. Mae Lamb Lane yr un mor gul a chyda bythynnod gwerinol deulawr ar y de a'r gorllewin. Fodd bynnag, mae'r llinell adeiladu gyferbyn â Lamb Lane yn fylchog gyda datblygiadau mwy diweddar yma ac acw. Mae wal derfyn uchel Herbert Hall yn

Bridge Street o'r de

gosod ymyl ddiffiniedig i ben uchaf Bridge Street. Mae'r gyffordd lle mae Bridge Street, y Stryd Fawr a Castle Road yn lle, ar hyn o bryd, sydd wedi'i ddylunio ar gyfer cerbydau gyda marciau ffordd amlwg, ond gellid ei gwella.

Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar hyd Bridge Street wedi'u rhestru a hefyd y bythynnod ar ochr de-orllewinol Lamb Lame. Bythynnod gwerinol yw craidd yr ardal gymeriad hon, gyda rhai eithriadu nodedig: Herbert Hall, tŷ mawreddog o gyfnod y Rhaglywyddiaeth, y tu ôl i waliau'r libart a Chapel Bethaberea ar ben deheuol Bridge Street. Mae'r capel yn nodwedd tirnod a nodwedd porth wrth ddod at Bridge Street o'r de-orllewin.

Nodwedd arbennig o Bridge Street yw'r ffenestri bwa tlws megis y rhai o boptu drws Rhif 11.

Mae Gorsaf yr Heddlu'n adeilad modern unllawr mewn lle amlwg ar gyffordd y Stryd Fawr ac yn anffodus nid yw'n cyfrannu'n bositif at gymeriad yr ardal.

Golygfeydd

Mae golygfeydd ysblennydd o Bridge Street, a'i thro ysgafn i lawr at afon Wysg, dros y toeau ac i'r tirwedd y tu hwnt.

Mae'r tro ysgafn yn y stryd a safle'r adeiladau yn golygu bod y golygfeydd yn ymddangos fesul tipyn. Er enghraifft, mae rhifau 36 a 39 Bridge Street bron yn cuddio'r olygfa o'r gogledd ond, fesul tipyn, mae mwy o'r stryd yn ymddangos.

Mae golygfeydd hyfryd ar draws mynwent y dref at Eglwys Sant Edmwnd drwy'r bwlch ar ochr ogleddol Lamb Lane.

Bridge Street ar dro tua'r afon

Lamb Lane

Golygfa at 36 a 39 Bridge Street

Golygfa at Orsaf yr Heddlu

Mannau agored ac wynebau

Does yna'r un man gwyrdd cyhoeddus yn yr ardal. Ond, ar diroedd Herbert Hall, mae'r coed, yn enwedig, yn cyfrannu at y strydwedd.

Un nodwedd arbennig o Bridge Street yw'r cerrig crynion a'r fflagiau hanesyddol sydd wedi goroesi ar y palmant, mwy nag yn unman arall yn y dref. Yn anffodus, mae rhai arwynebau hanesyddol wedi'u colli a deunyddiau modern wedi'u gosod yn eu lle. Byddai ail osod y cerrig ar fflagiau ar y palmant yn gwella ansawdd y stryd hon a'r ardal gadwraeth.

Mae lle mwy o faint, deniadol, gydag wyneb o gerrig crynion yn cael ei greu gan ogwydd 36 - 39 Bridge Street.

Herbert Hall

Ffenestri bwa ar hyd Bridge Street

Palmant o gerrig crynion a cherrig naturiol

Cymysgedd o drwsio gyda choncrid a phalmant o gerrig naturiol

Ardal Cymeriad

Y Castell a Dwyrain Crughywel



Y Castell a Dwyrain Crughywel

Cyflwyniad

Mae'r ardal gymeriad hon ar ochr ddwyreiniol y dref. Mae ei chanolbwynt ar safle Castell Alisby (Castell Crughywel) a'r gyfres o fannau gwyrdd agored i'r dwyrain o'r Castell, rhwng Beaufort Street a Castle Road. Er fod yna ardaloedd arwyddocaol o fannau agored, mae ardal gymeriad y Castell hefyd yn cynnwys y datblygiadau ar hyd Castle Road a Beaufort Street. Cafodd ardal gymeriad y Castell ei nodi oherwydd ei bod ar wahân i'r Stryd Fawr ac am y gosodiad cyffredinol mae'n ei roi i'r Castell.



© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Ffigwr 11:
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad y Castell a Dwyrain Crughywel

Yr ardal hon yw cychwyniad Ardal Gadwraeth Crughywel ar ochr ddwyreiniol y dref. Mae'r bythynnod pâr deniadol ar gornel Castle Road a Beaufort Street yn adwy weledol i'r ardal gadwraeth o'r dwyrain. Ffordd lydan, pwysig i draffig, yw Beaufort Street ac mae patrwm y datblygiad, at ei gilydd, yn llai dwys. Mannau hamdden agored yw'r rhan fwyaf o'r tir ar yr ochr ddeheuol.

Mae Castle Road yn llawer culach na Beaufort Street a phatrwm y datblygiad yn llawer mwy agos atoch, yn enwedig ar yr ochr ogleddol lle mae terasau byr o dai. Mae'r ffaith fod y ffordd

Golygfa tuag at weddillion Gatws Castell Crughywel

yn culhau mewn mannau hefyd yn cyfrannau at y teimlad hwnnw ac at synnwyr o le. Ond, er bod y waliau terfyn cerrig yn rhoi diffiniad, nid yw'r ffordd yn hollol gaeedig. Mae'r mannau agored yn creu bylchau arwyddocaol ar ochr ogleddol Castle Road, yn enwedig tiroedd y Castell, ychydig y tu hwnt i'r Drill Hall. Mae yna dai mwy, ar eu pen eu hunain, a gyda llawer o dir o'u cwmpas, ar yr ochr ddeheuol.

Parau o fythynnod ar y gyffordd

Mannau gwyrdd

Nodwedd allweddol yr ardal gymeriad hon yw ei mannau gwyrdd agored. Mae'r mannau gwyrdd yn cynnwys sawl elfen, rhai mewn mannau cyhoeddus ac eraill mewn mannau preifat Mae'r ardal o amgylch adfeilion y Castell, yn hanesyddol, wedi aros ar agor a gellir gweld y man agored pwysig hwn ar fapiau hanesyddol. Ac eithrio man chwarae gyda offer chwarae i blant, cymeriad anffurfiol sydd i'r man agored ac mae'r fynedfa i'r cyhoedd ato ar hyd llwybr troed yn cysylltu Beaufort Road a Castle Road. Mae'r man agored i'r dwyrain o diroedd y Castell yn fwy ffurfiol; yma mae Clwb Criced Crughywel, y Lawnt Fowlio a'r Cyrtiau Tenis. Y tu draw i'r maes chwarae, mae yna ardal hamddena anffurfiol a choed dymunol. Mae Gorchymyn Diogelu Coed unigol ar bob un o'r coed hyn, sy'n cynnwys bedw arian, cypreswydd a magnolia. Mae gerddi preifat hefyd yn cyfrannu at ansawdd gwyrdd yr ardal, yn enwedig y rhai ar ochr ogleddol Beaufort Street lle mae'r tai unigol a'r cartref nyrsio yn eu tiroedd helaeth eu hunain. Hefyd yn cyfrannu, mae'r gerddi sy'n gysylltiedig â'r tai modern, unigol a'r tai mwy, hanesyddol, ar ochr ddeheuol Castle Road. Ychwanegir at ansawdd gwyrdd y mannau agored gan goed, ac mae yna sawl un arbennig o hardd, y goeden gastanwydden ger y Gofeb Ryfel ar Beaufort Street yn un, a'r ffawydden gopr yn nhiroedd Dan y Castell ar Castle Road yn un arall. Mae coed hefyd yn nodwedd ar diroedd y Castell ac yn cyfrannu'n arwyddocaol at gymeriad gwyrdd yr ardal.

Beaufort Street

Castle Road

Llwybr trwy'r parc ger Green Hill Villas

Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod

Mae yna gymysgedd o adeiladau hanesyddol a modern yn ardal gymeriad y Castell. Mae olion giatws mewnol Castell Crughywel gyda'i ddau dŵr yn nodwedd ac yn dirnod archeolegol pwysig a hefyd y mwnt 8 metr o uchder i'r gogledd-orllewin o'r giatws. Mae'r tai hanesyddol yn amrywio o dai hanesyddol eithaf sylweddol i derasau byr cyffredin. Mae Dan y Castell yn enghraifft dda o dŷ bonedd Sioraidd gyda ffenestri ffrâm 16 cwarel ar y llawer gwaelod a'r llawr cyntaf ac ymylon drws pediment gyda drws chwe phanel wedi'i osod yn ôl a'i ffenestr ffan rwyllwaith. Mae 1 a 2 Greenhill Villa ar Beaufort Road yn bâr o dai rhestredig o'r 19eg ganrif, o'r cyfnod Sioraidd hwyr, sydd a wyneb hynod o debyg i Dan y Castell.

Mae Capel Dan y Castell ar Castle Road yn dyddio o yn gynnar yn y 19eg ganrif. Mae'r capel o fath sydd a'r drws yn y talcen, sy'n nodweddiadol o gapel trefol. Mae cofnod ohono ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol fel capel Presbyteraidd a godwyd yn 1805 a'i ailadeiladu yn 1829. Mae'r bythynnod pâr ar gyffordd Beaufort Road a Castle Street yn dyddio, mae'n debyg, o yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Maen nhw'n dirnod oherwydd eu safle amlwg, ar ongl, ar y gyffordd. Tirnod arall yw'r garreg fawr uchel sy'n cynrychioli cofeb ryfel y dref ar Beaufort Street.

Ar ben dwyreiniol Castle Road, mae mwy o dai modern. Heblaw am grŵp bychan ar ochr ogleddol y ffordd, mae'r tai ar eu pen eu hunain ac wedi'u gosod yn ôl mewn gerddi helaeth.

Ar ochr ogleddol Beaufort Road mae yna res o dai isel, rhai â gerddi helaeth o'u cwmpas. Mae'r cartref nyrsio ar ochr ogledd-ddwyreiniol Beaufort Road hefyd yn adeilad modern ac ar safle Greenfield House a ddaeth yn Ysbyty Goffa Crughywel cyn ei dymchwel ym 1970. Mae llawer o'r adeiladau diweddar

Golygfa at domen y castell

1 & 2 Green Hill Villas

Dan y Castell

Capel Dan y Castell

hyn ar leiniau helaeth wedi'u tirlunio sy'n cyfrannu'n bositif at yr ardal gadwraeth.

Mae terfynau cerrig hefyd yn nodwedd gref ar ddwy ochr Beaufort Street a hefyd ar hyd Castle Road. Un wal nodedig yw'r un uchel ar Castle Road lle roedd gardd gegin Glanyrafon, sydd wedi'i ddymchwel (ac lle mae ystâd dai erbyn hyn). Hon yw'r wal fwyaf nodedig yn yr ardal gymeriad ac mae ganddi bresenoldeb cryf ar ymyl y ffordd.

<u>Golygfeydd</u>

Mae golygfeydd panoramig o sawl man yn ardal gymeriad y Castell tua'r tirwedd ehangach ond un nodedig yw'r olygfa o Beaufort Street a thiroedd y Castell tua Mynydd Llangatwg. Golygfa drawiadol arall yw o ben Mwnt y Castell ar draws toeau'r Stryd Fawr gyfagos. Gellir gweld y Castell hefyd o Castle Road a Beaufort Street.

Golygfa o Beaufort Road at y gofeb ryfel a thiroedd y cartref nyrsio

Golygfa i'r gorllewin ar hyd Castle Road

Golygfa ar draws tiroedd y Castell at y tirwedd y tu hwnt

Golygfa o domen y castell dros doeau canol y dref



Gorllewin Crughywel
Ardaloedd cymeriad

6.5 Gorllewin Crughywel

Cyflwyniad

Mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys y tir ar ochr orllewinol New Road, rhan o Brecon Road, ymlaen i'r gorllewin oddi wrth ganol y dref, Llanbedr Road a Rectory Road. Mae llawer o'r diddordeb yn yr ardal hon ar yr adwy hanesyddol i Porthmawr a'r wal derfyn uchel sy'n cydredeg â New Road a Brecon Road. Ardal drigiannol yn bennaf yw hi gyda chymysgedd o dai teras, tai pâr, filas yn eu tiroedd eu hunain a rhai tai newydd yn llenwi yma ac acw. Mae yna ychydig o eiddo busnesau bychan ar ochr orllewinol New Road ac mae yna orsaf betrol (ychydig y tu allan i'r ardal gadwraeth) ar y gyffordd. Mae llawer o draffig trwodd ar New Road a Brecon Road sydd, yn anffodus, yn amharu ar ansawdd yr ardal.



Ffigwr 12:
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad Gorllewin Crughywel

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.
© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP
© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

<u>Ffurf a gosodiad yr adeiladau</u>

Adeiladwyd New Road yn 1823-30 i gysylltu â'r bont newydd, cyn hynny, Bridge Street oedd yn cysylltu'r dref a'r hen bont. Mae'n stryd lletach na llawer o'r rhai yn y craidd hanesyddol ac mae yna lai o gydlyniad yn y llinell adeiladu. Fodd bynnag, mae'r wal derfyn uchel o amgylch Porthmawr House a'r wal derfyn ar hyd ochr ogledd-ddwyreiniol Brecon Road yn rhoi diffiniad ac ymyl gref ar yr rhannau hyn. Mae'r patrwm datblygu, at ei gilydd, yn llai dwys nag ynghanol y dref, fodd bynnag, mae yna glystyrau dwysach ger Mill Street a rhannau o New Road. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n ddeulawr, gyda rhai eithriadau. Mae'r tir yn codi'n raddol i fyny

Golygfa at New Road o'r Bont

New Road tua Brecon Road ond yn disgyn yn gyflym ar yr ochr ddwyreiniol i Mill Street.

<u>Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod</u>

Mae Giatws y Porthmawr a'r wal derfyn yn nodwedd allweddol yn yr ardal. Mae Porthmawr House, a godwyd yn 1810 yn lle Cwrt y Carw, adeilad o'r 15fed ganrif, yn blasty sylweddol o gyfnod y Rhaglywyddiaeth gyda gerddi helaeth. Mae'n anodd gweld y plasty oherwydd y wal derfyn uchel ond, er hynny, mae ganddo bresenoldeb.

Mae yma nifer o filas deniadol yn eu tiroedd eu hunain, er nad yw'r rhan fwyaf wedi'u rhestru, nid yw Sŵn-yr-Afon, fila fechan o'r 19eg ganrif ar ochr de-ddwyreiniol New Road ar gornel Lamb Lane wedi'i rhestru ond mae ganddi gyfraniad nodedig i'r strydwedd. Tygwyn, fila o yn gynnar yn y 19eg ganrif ar Brecon Road yw'r eithriad, sydd wedi'i restru.

Mae yna nifer o adeiladau nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn yr ardal gymeriad hon sydd, er hynny, yn dylanwadu'n bositif ar ei diddordeb. Mae gan Eglwys Sant Edmwnd, gyda'i thŵr pigfain uchel, bresenoldeb cryf, yn enwedig ar New Road.

Mae'r Bridgend Inn, sydd wedi'i rhestru, yn adeilad 'porth' anffurfiol wrth gyrraedd New Road o'r de. Mae'r Six Bell yn hen dafarn sydd ran o'r ffordd i fyny New Road.

Mae'r tai ar ochr orllewinol Llanbedr Road yn rhan o'r ymestyniad swbwrbaidd pan oedd Crughywel yn ehangu yn nechrau a chanol y 19eg ganrif. Mae'n rhes gyfun a deniadol sydd wedi cadw llawer o'i nodweddion o'r 19eg ganrif.

Er nad yw o fewn ffiniau'r ardal gadwraeth, mae'r orsaf betrol ar gyffordd New Road a Brecon Road yn dirnod amlwg sy'n effeithio'n negyddol ar y gadwraeth oherwydd ei graddfa, a'i deunyddiau a'i harwyddion modern. Mae'r gyfnewidfa ffôn ar safle gornel amlwg ar y gyffordd hefyd yn cael effaith negyddol.

Golygfa tua'r dwyrain ar hyd Brecon Road

Porthdy Porthmawr a'r wal derfyn

Ty Porthmawr

Llanbedr Road

Mannau gwyrdd

Y prif fannau agored yn yr ardal gymeriad yw gardd Porthmawr a'r tir ar fynedfa Ysgol Uwchradd Crughywel. Yn achos Porthmawr, nid yw'r gerddi i'w gweld lawer o'r stryd oherwydd y wal derfyn uchel.

Ar ochr ddwyreiniol Rectory Road, mae'r gerddi preifat dwfn gyda'u planhigion aeddfed yn gwneud cyfraniad deniadol i'r rhan hon o'r ardal gadwraeth.

Mae'r ardal ger Safle Bicnic Bullpit, a'r coed yn codi uwch waliau tir Eglwys Sant Edmwnd, yn cyfrannu at y rhan hon o'r ardal gadwraeth. Mae'r goeden ffawydd gopr ysblennydd ar dir Sant Edmwnd yn bresenoldeb arwyddocaol ar New Road.

Golygfeydd

Wrth ddod at y dref o'r de, mae yna synnwyr o gyrraedd wrth groesi'r bont. Mae yna olygfeydd deniadol o'r Bridge Inn a Chapel Bethabara ac o'r dref yn y cefndir yn dringo i fyny'r bryn. Wrth deithio ar hyd New Road, mae yna olygfeydd pell tua Mynydd Llangatwg yn ymddangos yn y pellter. Yn gyferbyniad, mae'r gipolwg drwy lidiart tir yr eglwys yn olygfa fwy agos atoch. Mae rhai o'r golygfeydd gorau a mwyaf amlwg o Eglwys Sant Edmwnd i'w gweld o New Street. Gan fod y tir yn disgyn yn serth o New Street i Mill Street, mae golygfeydd ar draws toeau ac i'r dolydd y tu hwnt. O Mill Street, mae yna olygfeydd deniadol o'r eglwys at y tir uwch, uwchben New Road. Golygfa llai deniadol yw o'r orsaf betrol sy'n atal yr olygfa o'r de wrth gyffordd New Road a Brecon Road. Mae yna olygfeydd amlwg o New Road at gefnau eiddo ar Bridge Street a Lamb Lane. Mae yna olygfeydd hefyd at gefnau eiddo ar ochr orllewinol New Road o Safle Bicnic Bullpit. Mae llawer o'r cefnau'n eithaf cymhleth a diddorol ac yn cyfrannu at ymddangosiad yr ardal gadwraeth.

The Six Bells, New Road

Tiroedd wrth fynedfa Ysgol Crughywel

Rectory Road

Golygfa ar hyd New Road at Fynydd Llangatwg

Ffawydden Goprog yn y fynwent

Cip drwy borthdy'r fynwent

Golygfa o dŵr Eglwys St Edmund o Mill Lane

Golygfa o eiddo yng nghefn Bridge Street o New Road

Ardal Gymeriad

Upper House Farm



6.6 Upper House Farm

Mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys rhan fechan o Standard Street wrth iddi arwain tua'r dwyrain a chyrraedd ei chanolbwynt yn Ffermdy Upper House a'i adeiladau fferm traddodiadol o boptu'r stryd. Mae'r ardal yn cynnwys cymysgedd o ddefnydd trigiannol a masnachol.

Er nad yw fawr o ffordd o galon canol y dref, yn hanesyddol, y plasty a'r fferm a sefydlwyd gan y teulu Rumsey yn y 17eg ganrif yw canolbwynt yr ardal hon. Roedd fferm Upper House yn rhan o'r ystâd ac er bod y perllannau a'r caeau oedd o gwmpas y tai a'r adeiladau wedi'u datblygu, mae cymeriad yr ardal hon yn fwy gwledig o gymharu â chanol y dref.



Ffigwr 13:
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad Upper House Farm

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.
© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP
© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Ffurf a gosodiad yr adeiladau

Mae Standard Street ar ochr gogledd-ddwyrain Market Place ac, yma, mae'n dal yn amlwg o ganol y dref gyda'i hadeiladu tri llawr gydag ychydig o siopau bychan ar eu llawr isaf. Wrth symud ar hyd Standard Street, mae'r cymeriad yn newid. Mae'r stryd yn dal i deimlo'n eithaf caeedig, gydag adeiladau wedi gosod hyd at gefn y palmant ond, erbyn hyn, adeiladau deulawr sydd yma a bythynnod gwerinol deulawr yn cymryd drosodd.

Upper House Farm

Y tu hwnt i'r bythynnod, mae'r stryd yn dechrau magu cymeriad mwy agored gydag adeiladau wedi'u gosod yn ôl o'r stryd ac mewn mwy o dir. Ffermdy Upper House yw canolbwynt yr ardal gymeriad hon a hefyd osodiad neilltuol buarth yr hen adeiladau fferm. Mae dwy ysgubor ddyrnu ar hyd y styrd ar yr ochr ogleddol gydag ysgubor fawr arall o gerrig ar yr ochr ddeheuol.

Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod

Mae yna gasgliad pwysig o adeiladau rhestredig gradd II* o gwmpas hen blasty teulu'r Rumsey. Mae'r grŵp yn ffurfio casgliad siâp U sy'n cynnwys y Malt House, a oedd, ar un adeg, yn brif ran y plasty ac yn cael ei alw'n Rumsey Place; Little Malt House, rhan o gyn goetsiws Rumsey Place, yr hen Granar sydd ger cefn y Malt House ac a oedd, ar un adeg, yn rhan o fragdy a sefydlwyd gan y teulu Rumsey, a Ffermdy Upper Farm sydd ar ongl sgwâr i, a ger, Little Malt House. Mae Malt House a Little Malt House wedi'u gosod gryn bellter o'r ffordd ac yn eu tiroedd eu hunain. Nid oes gan y ddau adeilad hyn, felly, bresenoldeb stryd er bod gan gwrtil blaen Little Malt House, gyda'i wal derfyn gerrig, ei adwy a'r gwrych wedi'i lunio, bresenoldeb cryf ar y stryd. Ffermdy 17eg ganrif Upper House ar ddiwedd y grŵp ffurf U o adeiladau a'r hen ysgubor ddyrnu yw'r adeiladau mwyaf amlwg o ran presenoldeb yn y strydwedd.

Mae'r ysgubor ar fynedfa'r hen fuarth i Ffermdy Upper Farm wedi'i restru'n gradd II ac mae'n dyddio o'r 17eg ganrif. Mae'n debyg fod yr ysgubor o'r un cyfnod â'r ffermdy.

Mannau gwyrdd

Does yna'r un man gwyrdd cyhoeddus yn yr ardal hon ond mae'r ardd breifat o amgylch y byngalo modern ar ochr dde-orllewinol y stryd, a gardd Little Malt House gyferbyn, yn fylchau pwysig sy'n cyfrannu'n weledol at y strydwedd ac yn meddalu ffurf yr adeiladau.

Golygfa ar hyd Standard Street

Ysguboriau'n gysylltiedig ag Upper House Farm

Golygfa i'r gorllewin o Standard Street at ganol y dref

*Cowt y tu blaen i Little M*althouse

Golygfeydd

Mae'r olygfa wrth edrych yn ôl at Market Place brysur yn treiddio rhwng yr adeiladau ac yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y ddwy ardal o ran gweithgaredd.

Ceir cipolwg o olygfa ddiddorol at y datblygiad Televillage o'r 1990au o'r hen fuarth at Upper House Farm.

Fel gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd y dref, mae yna olygfeydd pellach o'r tirwedd o gwmpas ac un nodedig yw'r olygfa o'r mynydd yn codi uwchben Market Place.

Golygfa o Upper House Farm at ddatblygiad Televillage



Ardal gymeriad
Riverside

6.7 Riverside,

Cyflwyniad

Canolbwynt yr ardal gymeriad hon yw coridor afon Wysg a hefyd y rhwydwaith o fannau agored i'r de o Castle Road. Priffyrdd yw terfyn pellaf yr ardal yn y de-orllewin (A4077 a B4558).



Ffigwr 14:
Ardal Gadwraeth Crughywel
Ardal Cymeriad Riverside

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.
© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP
© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

Ansawdd yr adeiladau ac adeiladau tirnod

Mae'r ardal yn bennaf yn un o fannau gwyrdd agored, ond mae ynddi un strwythur nodedig: Pont Crughywel. Mae'r bont yn adeilad rhestredig gradd I a hefyd yn Heneb Gofrestredig.

Pont ffordd yw hi a gafodd ei hailadeiladu ym 1706 a'i haddasu'n ddiweddarach, gan gynnwys ei lledu yn 1810. Pont unffordd yw hi ac mae wedi'i hadeiladu o gerrig rwbel mewn haenau. Mae'n dirnod ac yn 'adwy' bwysig' wrth gyrraedd y dref o'r de-orllewin.

Cymeriad y mannau agored

Mae afon Wysg yn llifo'n gyflym gyda nifer o lednentydd yn ymuno â hi. Mae coed yn tyfu ar ei glannau a phorfa o bobtu. Ar ei hochr ogledd-ddwyreiniol mae'r man mwyniant agored, Safle Bicnic Bullpuit, sy'n ddol fawr, agored. Mae'r borfa sydd o boptu'r afon a Safle Bicnic Bullpit, yn gyfraniad pwysig i osodiad y bont restredig.

Mae llwybr cyhoeddus ar ochr ogleddol yr afon a mynediad agored i'r cyhoedd i Safle Bicnic Bullpit.

Ar y tir sy'n codi rhwng Bridge Street a Castle Road mae gerddi preifat a chaeau bychan rhwng coed a pherthi.

Mae Afon Wysg wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'n yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig.

Golygfeydd

Mae yna olygfeydd hyfryd o'r ardal gadwraeth hon o Bont Crughywel ar y ddwy ochr, gan gynnwys y bwâon a'r torddyfroedd.

Mae golygfeydd deniadol oddi ar Bont Crughywel ei hunan i fyny ac i lawr yr afon ac o'r mynyddoedd o amgylch. Mae yna hefyd olygfeydd braf o'r dref yn dringo i fyny'r llethr. Mae'r Bridge Inn a Chapel Bethabara'n gwneud cyfraniad hynod werthfawr i'r olygfa hon.

Oherwydd y topograffeg, mae'r gerddi a'r caeau bychan wrth gefn y tai ar y tir uwch ar Castle Road yn cael eu cysylltu'n weledol â choridor glan yr afon. Mae rhan hon o'r ardal gymeriad hefyd yn amlwg yn y golygfeydd i'r pellter.

Pont Crughywel o ddolydd Bullpit

Golygfa o Afon Wysg o Bont Crughywel

Golygfa wrth ddod i'r dref o Bont Crughywel

Caeau a y llethr uwch ben Afon Wysg

53 M.T. CASHELL FAMILY BUTCHERS
M.T. CASHELL
FAMILY BUTCHERS
Tel: 01873 810 405
www.cashells.co.uk

7. CYMERIAD PENSAERNÏOL

7.1 Arddull Adeiladu

Mae yna wahanol arddulliau pensaernïol yn yr ardal gadwraeth, gydag adeiladau a'u gwreiddiau yn yr oesoedd canol ac o'r cyfnodau Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd. Mae'r gymysgedd yn cyfrannu'n arwyddocaol at gymeriad y dref. Disodlodd ail ddatblygu rhannau o'r dref yn y cyfnodau Sioraidd a Fictorianaidd adeiladau cynharach o'r oesoedd canol. Fodd bynnag, mae yna enghreifftiau o adeiladau cyn y cyfnod Sioraidd sydd wedi goroesi, gan gynnwys y Corn Exchange ar y Stryd Fawr sydd ag wyneb o ddiwedd y 18fed / dechrau'r 19eg ganrif yn cuddio adeiladwaith o'r 17eg ganrif.

Ceir arddull gref Sioraidd ar y tai mwyaf bonheddig yn y dref, un enghraifft dda yw Latham House yn y Stryd Fawr, sydd o'r cyfnod Sioraidd. Mae'r adeiladau o ganol y 19eg ganrif hefyd yn dangos dylanwad arddull glasurol Sioraidd. Mae'r arddull glasurol yn arbennig o amlwg yn yr adeiladau a oedd yn rhan o ail fodelu canol y dref yn y 19eg ganrif. Wrth i'r dref ymestyn i'r dwyrain a'r gorllewin, daw arddulliau Fictorianaidd ac Edwardaidd yn fwy amlwg, weithiau gyda myrdd o fanylion fel sydd i'w gweld ar Clarence Hall. Mae'r adeiladau gwerinol wedi'u hadeiladu o gerrig rwbel yr ardal, nodwedd arwyddocaol arall o'r ardal gadwraeth, sy'n cynnwys bythynnod eithaf tlodaidd, rhai hen adeiladau fferm ac adeiladau a godwyd i wasanaethu economi'r ardal.

Yn ogystal ag adeiladau gydag arddull gwahanol gyfnodau, mae yna hefyd gyferbyniad diddorol rhwng grwpiau o adeiladu wedi'u cynllunio a'r rhai sydd wedi'i datblygu'n fwy fesul tipyn.

Adeilad gwerinol 1 ½ llawr

Tŷ bonedd Georgaidd cynnar

Teras a gynlluniwyd ganol y 19eg ganrif

Fila ar ei phen ei hun

7.2 Graddfa a Ffurf Adeiladau

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n ddau neu dri llawr er bod yna rai unllawr gydag ystafelloedd yn y nenfwd. Yng nghraidd canol y dref y mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau trillawr, yn bennaf o ganlyniad i ail fodelu rhannau o ganol y dref yn y 19eg ganrif i wneud defnydd mwy effeithiol o'r tir. Mae'r wynebau'r rhan fwyaf o'r adeiladau yng nghraidd canol y dref yn rhedeg yn ddi-dor gan wneud y deunydd gorau o'r lleiniau hir, cul (lleiniau bwrdais). Mae'r ardaloedd trigiannol ger craidd canol y dref hefyd wedi'u trefnu mewn terasau, un ai terasau wedi'u cynllunio megis ar hyd Tower Street neu'n anffurfiol fel ar Bridge Street.

Mae pob adeilad yn yr ardal gadwraeth ar raddfa ddynol, yn enwedig y bythynnod gwerinol, ond hefyd yr adeiladu trillawr, wynebau cul, yng nghanol y dref. Defnyddir manylion pensaernïol i bwysleisio graddfa a phwysigrwydd rhai adeiladu, er enghraifft y manylion cyfoethog ar neuadd y dref, y pilastrau enfawr sy'n esgyn fry ar 52-53 Stryd Fawr a'r manylion afradlon ar Clarence Hall.

Wrth symud o graidd hanesyddol canol y dref, mae'r patrwm datblygu'n tueddu i fod yn llai dwys gyda mwy ac adeiladau ar wahân mewn lleiniau helaethach. Fodd bynnag, mae yna'n dal rhai clystyrau o ddatblygiadau dwysach.

7.3 Defnyddiau

Cerrig a rendr sydd i'w gweld fwyaf ar wynebau adeiladau yng Nghrughywel. Roedd digonedd o'r garreg dywod goch, Ddefonaidd, ar gael yn y chwareli o amgylch ac fe'i defnyddiwyd i adeiladu rhai o'r adeiladau cynharaf sy'n goroesi yn y dref heddiw, megis Castell Aisby ac Eglwys Sant Edmwnd. Yn cael ei gosod fel arfer yn ddi-gwrs, y garreg leol hon oedd yn cael ei defnyddio i adeiladu tai i'r byddigion yn ogystal a'r bythynnod mwy gwerinol a'r waliau terfyn. Mae cerrig nadd i'w gweld ar adeiladau ffurfiol, megis Neuadd y Dref, sydd wedi'i hadeiladu o gerrig tywod wedi'u naddu gyda chyferbyniad o gonglfeini carreg dywod gyda wyneb o garreg

Adeiladau tri llawr, rhan o'r ail fodelu yn y 19g ganrif

Adeilad gwerinol 1 ½ llawr

52 -53 y Stryd Fawr – enghraifft o bensaernïaeth wedi'i chynllunio

Carreg dywod goch a ddefnyddiwyd i godi'r bythynnod gwerinol

galetach. Mae llawer o'r adeiladau ar Beaufort Street wedi'u hadeiladu o garreg dywod Pennant gyda wyneb o gerrig caletach o'r meysydd glo cyfagos, lliw llwyd / gwyrdd. Mae rhai o'r adeiladau cerrig wedi'u paentio ac mae'n debyg, yn y gorffennol, eu bod wedi'u gwyngalchu i amddiffyn y cerrig.

Mae rendr hefyd i'w weld trwy'r dref, fel arfer wedi'i baentio'n wyn, lliw hufen neu'n lliw pastel. Mae yna lawer o enghreifftiau lle mae'r manylion wedi'u paentio'n ddu, i sefyll allan. Redr llyfn fel arfer yw'r wyneb ar adeiladau o'r 19eg ganrif yng nghraidd canol y dref ac mae yna nifer o enghreifftiau da o rendr wedi'i ysgythru i efelychu cerrig nadd. Rendr llyfn wedi'i baentio sydd ar wyneb llawer o'r bythynnod hefyd ac mae yna hefyd enghreifftiau o rendr traddodiadol garw. Mae rhai addasiadau o'r 20fed ganrif wedi defnyddio rendr wedi'i chwipio â cherrig mân a rendr Tyroleaidd, sy'n tynnu oddi ar y cymeriad gwerinol, gwreiddiol.

Ychydig o friciau oedd wedi'i defnyddio fel y prif ddeunydd adeiladu ond maen nhw i'w gweld mewn manylion gyda charreg dywod Pennant. Mae llawer o'r simneiau wedi'u hadeiladu o friciau, weithiau wrth ddisodli simneiau cerrig. Mae yna hefyd enghreifftiau o fanylion Terracotta.

Llechi Cymreig yw'r prif orchudd ar y toeau. Mae yna rai enghreifftiau o deiliau clai coch, gan gynnwys teiliau Rhufeinig, ar y tai pâr ar gyffordd Beaufort Street a Castle Road a theiliau rhosmari ar brif do Eglwys Sant Edmwnd, a gafodd do newydd ym 1897.

7.4 Manylion Pensaernïol

Mae yna gyfoeth o fanylion pensaernïol ar adeiladu yn yr ardal gadwraeth. Mae rhai adeiladau wedi'u dylunio fel enghreifftiau pensaernïol gyda manylion ailadroddus, mae gan eraill eu dyluniad unigryw eu hunain a rhai adeiladau wedi esblygu gyda gwahanol fanylion o wahanol gyfnodau. O ganlyniad, gall yr

Rendr wedi'i sgriblo a chyrsiau llinyn gwastad

Cyrsiau llinyn, siliau a mowldiau o amgylch ffenestri yn cael eu dangos yn ddu

Manylion terracotta ar ffenestr Edwardaidd gyda charreg dywod pennant ar yr wyneb uwchben

amrywiaeth yn y manylion pensaernïol fod yn eithaf eclectig mewn mannau, ond mae hyn yn cyfrannu at y cymeriad cyffredinol ac at gymeriad yr ardal gadwraeth. Fodd bynnag, mae yna nodweddion sy'n uno adeiladau, megis y cyrsiau llinyn a'r ffenestri ffrâm sydd ar lawer o'r adeiladu, y rendr llyfn ar wynebau adeiladau yng nghanol y dref, y bandiau amlwg ar y grwpiau sydd wedi'u rendro a'r garreg leol.

Ffenestr sash 16 cwarel

Ffenestri a Drysau

Mae ffenestri a drysau'n fanylion pensaernïol pwysig, yn wir disgrifiwyd ffenestri 'llygaid' adeilad. Ffenestri pren, ffrâm, yw'r math mwyaf cyffredin o ffenestri yn yr ardal gadwraeth, sy'n dangos dylanwad pensaernïaeth Sioraidd pan oedd y dref yn tyfu yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae'r ffenestri ffrâm cynharaf yn tueddu i fod â llawer o gwareli, fel arfer 12 cwarel, a'r rhai diweddarach, o'r cyfnodau Fictoraidd ac Edwardaidd, â llai o cwareli ym mhob ffrâm, fel arfer 2 uwchben 2. Mae yna, fodd bynnag, beth amrywiaeth yn arddull sylfaenol rhai ffenestri ffrâm: y ffenestr Fenetaidd ar y Dragon Hotel a'r enghreifftiau o ffenestri bwa a bae, ffenestri oriel a ffenestri gyda phen hanner crwn. Mae yna hefyd enghreifftiau o ffenestri casment ar rai o'r tai mwy gwerinol, er bod gan rai o'r rhain ffenestri ffrâm hefyd.

Ffenestr Fenetaidd, Dragon Hotel

Yn anffodus, mae yna rai enghreifftiau o newid ffenestri pren am rai PVCu. Perthynas hynod arwynebol sydd gan y ffenestri modern PVCu hyn a'r ffenestri pren traddodiadol a dydyn nhw ddim yn gallu ail ddangos manylion y gwaith saer gwreiddiol.

Ffenestr bwa, Bridge Street

Mae drysau gwreiddiol yn nodweddion pensaernïol gwerthfawr, yn dangos dyddiad ac arddull yr adeilad ac, o bosibl, ei statws cymdeithasol. Fel arfer, drysau chwe phanel sydd ar yr adeiladau, gan gynnwys y bythynnod. Mae yna rai enghreifftiau da o ddrysau chwe phanel gyda ffenestri ffan uwch eu pennau a rhai gyda fframiau drysau pediment cymhleth. Mae yna enghreifftiau eraill o fframiau drysau llai

mawreddog, megis y teras ar hyd Tower Street. Mae handlenni, offer cnocio a dodrefn eraill ar ddrysau hefyd yn ychwanegu at y diddordeb.

Mae yna rai enghreifftiau o ddrysau o fyrddau pren plaen ar adeiladau gwerinol.

Blaenau siopau

Mae blaenau siopau'n elfen bwysig yn strydwedd y dref ac yn cyfrannu'n sylweddol at ei bywiogrwydd a'i diddordeb. Mae gan siopau ar y Stryd Fawr a Beaufort Street flaenau deniadol, llawer wedi cadw'r dyluniadau a'r deunyddiau traddodiadol. Mae manylion yn cynnwys codwyr stoliau, pilasterau, corbelau, arwyddion gyda dyluniad a lliwiau da, y cyfan yn nodweddion pwysig. Nodwedd arbennig yng nghanol y dref yw siopau cornel sy'n manteisio drwy gael wyneb ar ddwy stryd.

Manylion toeau

Toeau brig, weithiau gyda thal meini yn wynebu'r stryd, yw'r mwyaf cyffredin, ond mae yna amrywiadau. Ceir hefyd doeau ymylon main, toeau anodd eu gweld y tu ôl i barapedau. Weithiau mae yna fanylyn anarferol ar do yn tynnu'r llygad. Mae hyn yn wir am Clarence Hall gyda'i thŵr, a Beaufort Chambers lle mae'r to yn dilyn cromen y gornel ac yn cynnwys manylion ar y gwaith plwm. Mae simneau'n gwneud cyfraniad pwysig i amrywiaeth a diddordeb llinell y toeau. Fe arfer, simneau bric sydd yma, rhai wedi'u rendro, a photiau clai ar eu pennau. Mae yna hefyd enghreifftiau o simneau cerrig, ond mae llawer o'r rhain wedi'u dymchwel a simneau bric wedi'u hadeiladu yn eu lle.

Nid yw ffenestri dormer yn gyffredin yn yr ardal gadwraeth ond mae yna rai enghreifftiau, gan gynnwys ffenestri dormer 'catslide' ar do 44 y Stryd Fawr a'r rhai dormer tal maen ar Dragon Hotel. Mae rhai ffenestri dormer croes yn wynebu'r stryd, rhai gyda ffenestri atig, yn

Twll drws gyda phediment a drws 6 phanel a goleuni ffan traswr uwchben.



Wyneb siop traddodiadol

Manylyn tô

nodwedd mewn sawl man yn yr ardal gadwraeth.

Mae bondo dwfn, gydag addurn, yn nodwedd ar rai adeiladau pwysig. Mae nodweddion megis cornisiau danheddog a bracedau o dan y bondo'n ychwanegu at gyfoeth ac ansawdd yr adeiladau hyn.

Ceir addurniadau ar ymylon bondo filas mwy diweddar yng nghraidd hanesyddol y dref. Mae teiliau brig clai wedi'u haddurno i'w gweld ar rai adeiladau.

7.5 Strydlun

Ffiniau

Mae waliau terfyn o gerrig lleol, di-gwrs, yn nodwedd drwy'r rhan fwyaf o'r ardal gadwraeth ond yn enwedig ar Beaufort Road, Castle Road, New Road a Brecon Road. Maen nhw'n rhoi diffiniad cryf o amgylch adeiladau a mannau pwysig, megis Porth Mawr, Castle Grounds ac Eglwys Sant Edmwnd. Mae waliau gerddi ar hyd y ffordd yn ychwanegu diddordeb a chysondeb i'r strydwedd. Ond, mewn rhai mannau, mae'r waliau'n fylchog oherwydd creu lle parcio oddi ar y stryd. Mae hyn yn amlwg iawn ar ochr ddwyreiniol New Road.

Er mai rhai cerrig yw'r rhan fwyaf o'r waliau terfyn, mae yna hefyd nifer o enghreifftiau o reiliau a giatiau metel. Un enghraifft nodedig yw'r rheiliau a'r giât o bobtu'r llwybr yn rhedeg rhwng tir yr eglwys a'r fynwent. Mae yna enghreifftiau hefyd o waliau cerrig isel gyda reiliau haearn bwrw neu haearn gyrr ar eu pennau.

Arwynebau

Mae yna enghreifftiau o balmantau hanesyddol sydd wedi goroesi neu balmentydd o ddeunyddiau traddodiadol newydd yn y dref sy'n ychwanegu gwead a diddordeb. Mae palmant o gerrig crynion yn dal o flaen Bear Inn a hefyd ar rannau o Bridge Stret. Mae darnau o balmant o'r cerrig palmant gwreiddiol hefyd ar Bridge Street. Mae iard yr adeiladau busnes

Estyll addurniadol

Bondo cromfach – Dragon Hotel

Waliau o gerrig di-gwrs

Wal derfyn gyda rheiliau o haearn gyrru ar ei phen

yn Upper House Farm wedi'i phalmantu'n ddeniadol gyda slabiau cerrig.

Wynebau o ddeunydd modern sydd ar ran ogleddol y Stryd Fawr, Tower Street a rhan o Beaufort Street. Fel arall, wyneb o bitumen sydd ar balmentydd, gan gynnwys ffyrdd a'r ffyrdd gyda llai o draffig megis Church Lane a Tower Street. Yn anffodus, mae darnau o rai o'r wynebau hanesyddol ar Bridge Street wedi'u trwsio â deunddiau modern, sy'n tynnu oddi wrth ansawdd y palmentydd. Lle mae deunyddiau modern wedi'u defnyddio, dydyn nhw ddim o safon uchel adeiladau hanesyddol y dref a'r lleoedd o'u cwmpas. Mae cerbiau ar rai strydoedd o garreg dywod Pennant ond mewn rhai mannau mae cerbiau concrid wedi'u gosod yn lle cerbiau cerrig.

Cerrig crynion a cherrig llawr – Bridge Street

Celfi stryd

Mae goleuadau stryd yn nodwedd o bwys yn y strydwedd oherwydd effaith weledol y colofnau a'r gosodiadau. Mae goleuadau wedi'u dylunio'n dda yn gallu creu awyrgylch bositif yn y nos. Gwneud y tro yn hytrach na bod yn ddeniadol y mae colofnau'r goleuadau ar y prif ffyrdd sy'n mynd trwy'r dref, sydd wedi'u dylunio i dywynnu golau'n ddiogel ar gyfer cerbydau a cherddwyr. Ar ôl y colofnau goleuadau iwtilitaraidd ar y Stryd Fawr, Market Place a rhan o Brecon Road, ceir gosodiadau goleuo trawiadol, gydag edrychiad hen ffasiwn, bracedi metel arddurniadol yn dal lantern fawr ar golofnau neu wedi'u gosod i'r adeiladau. Mae colofnau goleuadau sy'n edrych yn hen ffasiwn hefyd yn Tower Street, Bridge Street ac ar ran o'r ffordd ar hyd Standard Street, er eu bod yn fwy cymysg o gwmpas ardal Church Lane, lle mae ychydig o oleuadau modern safonol yn ymddangos.

Lamp stryd gyda chromfach addurniadol ar adeilad ar y Stryd Fawr

Mae'r blychau post coch traddodiadol yn gyfraniad positif, deniadol i'r strydwedd, yn ogystal â'r ciosg ffôn coch traddodiadol ger Adeilad CRIC.

Blwch Post, y Stryd Fawr

Plastig, yn bennaf, yw'r biniau ysbwriel ac o'r dyluniad 'treftadaeth' unffurf a geir mewn llawer o drefi a dinasoedd. Mae bolardiau i reoli symudiadau'r cerbydau o ddyluniad modern, iwtilitaraidd ac naill ai'n blastig neu'n concrid. Er bod raid eu cael i reoli symudiadau, megis y rhai o gwmpas y Ffynnon Goffa, yn anffodus dyw eu hansawdd ddim yn ddigon da mewn lleoliadau hanesyddol. Mae'n rhaid cael rhwystrau diogelwch ger yr arhosfan bws ar Beaufort Street hefyd ond mae'r rhai sydd yno ar hyn o bryd yn anneniadol.

Mae arwyddion bysedd metel ar bolion wedi'u gosod mewn un neu ddau o fannau, gan gynnwys wrth yr adeilad CRIC ac yn nhiroedd y Castell. Mae'r rhain eto o'r dyluniad treftadaeth safonol sydd i'w gweld mewn llawer o ardaloedd hanesyddol ar draws y wlad ond maen nhw hefyd o ansawdd da. Mae yna, fodd bynnag, ychydig o arwyddion cyfeirio sydd o ansawdd salach.

Mae'r basgedi crog a'r cafnau planhigion, sy'n cael eu cynnal yn dda, yn ychwanegu ychydig o liw yn ystod misoedd yr haf ac yn cyfrannu at apêl weledol y dref.

Basgedi crog yn arddangosfa liwgar ar y Stryd Fawr

Arwyddbost a blwch ffôn y tu allan i adeilad CRIC

Bolardiau plastig a marciau ar y ffordd yn amharu ar leoliad y Ffynnon Goffa

8. ASEDAU HANESYDDOL DYNODEDIG

Mae yna121 o adeiladau rhestredig o fewn ffiniau'r ardal gadwraeth. Mae 107 yn gradd II; 11 yn gradd II* a 3 yn gradd 1. Mae yna hefyd 3 Heneb Cofrestredig o fewn ffiniau'r ardal gadwraeth: Castell Crughywel, Pont Crughywel a'r porthdy ym Mhorthmawr. Dangosir lleoliad yr Adeiladau Rhestredig a'r Henebion Cofrestredig yn yr Ardal Gadwraeth yn Ffigwr 15. Mae rhestr o'r adeiladau rhestredig a'r Henebion Cofrestredig sydd yn yr ardal gadwraeth yn Atodiad 3. Mae'r ffotograffau isod yn dangos detholiad o adeiladau rhestredig sy'n cynrychioli rhai o'r gwahanol fathau o adeiladwaith yn yr ardal gadwraeth. Gellir gweld y disgrifiadau ar y rhestr ar CofCymru: https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru

44 Stryd Fawr – gradd II

The Dragon Hotel – gradd II*

Pen-Y-Dre – gradd II

Neuadd y Dref gradd II*; James Isaac – gradd II

Capel Betharbara – gradd II

Ivy Tower – gradd II



Ffigwr 15:

Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

BRECON BEACONS NATIONAL PARK

9. ASEDAU HANESYDDOL ALLWEDDOL HEB EU DYNODI

Mae yna nifer o adeiladau a strwythurau yn yr ardal gadwraeth, er heb eu rhestru, sy'n gwneud cyfraniad positif i'w chymeriad ac i'w hymddangosiad. Fe'u dangosir yn ffigwr 16 ac mae rhesr ohonyn nyw yn Atodiad 4.

Mae ffotograffau a disgrifiad byr isod o'r adeiladau a nodwyd ar y map.

<table>
<tr>
<td> </td>
<td> </td>
</tr>
<tr>
<td>Clarence Hall, Beaufort Street
Adeiladwyd Clarence Hall yn 1890 – 1 a'i henwi ar ôl Dug Clarence a osododd y garreg sylfaen. Mae Pevsner yn nodi fod yr adeilad 'yn bendant yn ychwanegu nodyn Fictorianaidd, y blaen yn debyg i gapel gyda thŵr cornel a bondo serth.'. Mae'n cynnwys ychydig o fanylion eithafol megis y lwfer o garreg cerfiedig dros y drws.</td>
<td>Swn-yr-Afon, New Road
Fila fechan o ddiwedd y 19eg, wedi'i adeiladu o gerrig gydag estyll tywydd addurniadol a phatrwm lozenge haearn ar y ffenestri.</td>
</tr>
<tr>
<td> </td>
<td> </td>
</tr>
<tr>
<td>Wal derfyn yr hen ardd gaeedig, Castle Road
Y wal uchel hon yw'r cyfan sy'n weddill o wal yr ardd gegin oedd yn gysylltiedig â Glanyrafon (tŷ Fictorianaidd cynnar a gafodd ei ddymchwel yn yr 20fed ganrif.</td>
<td>Beaufort Chambers, Beaufort Street
Mae rhai manylion deniadol ar yr adeilad, yn cael eu harddangos mewn terracotta. Mae ffurf y to dros y gornel sblae gyda manylion plwm a manylion y ffenestri hefyd o ddiddordeb.</td>
</tr>
</table>

Pâr o fythynod, Castle Road. Mae'r manylion deniadol yn cynnwys teils crog clai coch bylchog gyda simnai sylweddol o frics coch yn y canol.

The Old School a School House
Mae adeiladau'r hen ysgol wedi'u hadeiladu o gerrig lleol ac yn cynnwys manylion yr Adfywiad Gothig.

Dan y Castell Chapel, Castle Road
Mae Capel Dan y Castell ar Castle Road yn dyddio o'n gynnar yn y 19eg ganrif. Mae o'r math gyda'r drws yn tâl maen yn wynebu'r ffordd. Waliau wedi'u rendro a tho llechi.

Castle Garage, Beaufort Street
Mae'r garej o arddull y 1920au yn gymharol brin ac yn ychwanegu at ddiddordeb y strydwedd yn ogystal ag at y gwanhaol wasanaethau sydd yng nghanol y dref.

19, 20, 21 a 22 Stryd Fawr
Mae'r rhes o 3 adeilad, sy'n cyfuno â'r adeiladau rhestredig o'u gwmpas, yn rhannu manylion hanesyddol cyffredin megis ffenestri dalennog sawl cwarel a chwrs llinyn.

Adeilad Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel (CRIC), Beaufort Street
Mae'r adeilad newydd wedi'i wynebu mewn carreg ac yn cyd-fynd yn dda gyda'i leoliad hanesyddol.



Ffigwr 16:
Asedau Hanesyddol Allweddol heb eu Dynodi

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

10. ADEILADAU TIRNOD

Mae gan Grughywel gyfoeth o adeiladau hanesyddol sydd yn bresenoldeb arwyddocaol yn y strydwedd, yn unigol neu fel grwpiau. Gallai'r presenoldeb hynny fod oherwydd amrywiaeth o resymau, gan gynnwys eu defnydd, safiad, graddfa, ffurf, perthynas ag adeiladau cyfagos a manylion pensaernïol. Fodd bynnag, mae rhai adeiladau a strwythurau'n sefyll allan o'r adeiladau eraill gyda'u cyfuniad o'r nodweddion hynny.

Yng Nghrughywel mae Neuadd y Dref yn y Stryd Fawr yn wahanol i'w gymdogion oherwydd ei faint a'i ddyluniad crefftus, sy'n adlewyrchu ei ddefnydd fel adeilad cyhoeddus. Mae'r Ffynnon Goffa a'r gazebo ar Brecon Road yn gymharol fach o gymharu a'r adeiladau cyfagos; fodd bynnag, mae ganddyn nhw bresenoldeb oherwydd eu lleoliad allweddol, eu ffurf a'u dyluniad unigryw. Ar ben arall y raddfa, eglwys Sant Edmund yw'r adeilad talaf yn y dref gyda'i meindwr yn amlwg mewn golygfeydd agos a phell.

1. Eglwys Sant Edmwnd

Dyma adeilad talaf y dref ac mae i'r gorllewin o'r Stryd Fawr. Mae'r meindwr i'w weld yn codi uwchben y toeau o leoliadau, yn y dref ac yn y pellter.

At ddibenion yr arfarniad hwn, ystyrir mai adeiladau neu strwythurau tirnod yw rhai gyda chyfuniad o nodweddion sy'n gwneud iddyn nhw sefyll allan mewn ffordd sy'n cyfrannu'n bositif at gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae'r adeiladau sydd wedi'u nodi fel adeiladau tirnod yn cael eu dangos yn Ffigwr 17 ac yn cael eu disgrifio'n fyr yn y bennod hon.

2. Neuadd y Dref, Stryd Fawr

Mae Neuadd y Dref yn sefyll mewn lle amlwg ar y Stryd Fawr. Oherwydd ei maint a'i harddull bensaernïol, mae'n sefyll allan o'r adeiladau cyfagos.

3. Y Ffynnon Goffa

Er yn strwythur gymharol fach, mae lle canolog y Ffynnon yn ei gwneud yn ganolbwynt ac yn dirnod ym Market Place.

4. Castell Crughywel – mae'r man agored o gwmpas yr adfeilion dramatig yn amlygu'r porthdy fel tirnod.

5. Pont Crughywel – mae'r bont yn dirnod oherwydd ei phresenoldeb fel adeiladwaith a'i defnydd fel prif groesfan yr afon.

6. Porthdy Porthmawr, Brecon Road – mae pensaernïaeth a gwyngalch ocr y porthdy, ynghyd â'r waliau'r terfyn cysylltiedig yn cyfuno i roi cryn bresenoldeb i'r strwythur hwn.

7. Gazebo, Brecon Road – mae'r adeilad hwn yn fach ond mewn lleoliad amlwg wrth ochr y ffordd oherwydd ei ddefnydd gwreiddiol fel tŵr i wylio am goetsys yn mynd heibio.

8. Bridgend Inn. Mae'r dafarn mewn safle amlwg ar y ffordd i mewn dros Bont Crughywel. Yn ystod niwedd y 19eg ganrif roedd y pen gorllewinol yn wynebu'r bont yn dolldy.

9. Y Gofeb, Beaufort Street. Strwythur bychan ond amlwg ar gornel.

10. Clarence Hall, Beaufort street. Mae'r adeilad hwn yn sefyll allan oherwydd ei faint a'i bensaernïaeth fanwl.

11. Bythynnod mewn lle amlwg ar y brif ffordd i mewn i'r dref o'r dwyrain.



Ffigwr 17

Adeiladau Tirnod

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

11. DEFNYDDIAU A GWEITHGAREDDAU

Mae ardaloedd cadwraeth yn cael eu dynodi am eu cymeriad a'u hymddangosiad. Canolbwyntir yn aml ar y bensaernïaeth ond mae'r defnyddiau a'r gweithgareddau hefyd yn cyfrannu'n arwyddocaol at gymeriad yr ardal.

Mae yna amrywiaeth o wasanaethau yn ardal gadwraeth Crughywel sy'n gwasanaethu trigolion y dref a'r pentrefi cyfagos, yn ogystal â'r ymwelwyr â'r ardal. Mae defnydd trigiannol hefyd yn agos at galon ganol y dref ond daw tai a bythynnod yn fwy amlwg wrth symud ymhellach at ymylon yr ardal gadwraeth.

Ar y Stryd Fawr y mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd masnachol ond mae hefyd yn ymestyn i lawr Beaufort Street. Yn hanesyddol, roedd yna siopau hefyd ar Bridge Street, er bod y stryd erbyn hyn yn gwbl drigiannol. Siopau annibynnol yw'r rhan fwyaf o'r rhai yng nghanol y dref, yn ateb y rhan fwyaf o anghenion o ddydd i ddydd yn ogystal â siopau boutique a chaffis. Mae Crughywel hefyd wedi cadw ei thafarndai'r goets fawr a'r tafarndai llai sy'n dal i gael eu defnyddio fel gwestai, bariau a bwytai. Mae rhai o'r siopau a'r caffis yn ymestyn allan ar y palmant gyda'r byrddau a'r mannau eistedd neu arddangosfeydd deniadol o gynnyrch megis ffrwythau a llysiau. Yn gyffredinol, mae lefel y stryd yng nghanol y dref yn ferw o weithgaredd, prysur, sy'n gyfraniad pwysig i gymeriad yr ardal gadwraeth.

Mae yna ardal fasnachol arall yn Upper House Farm, ychydig i ffwrdd ond ar wahân i'r Stryd Fawr. Mae'n cynnwys unedau busnes bach mewn hen adeiladau fferm gyda buarth o'u cwmpas.

Yn hanesyddol, mae Crughywel wedi bod yn ganolfan i ymwelwyr sy'n dod i'r ardal i gerdded a physgota, yn bennaf. Mae hynny'n parhau ac mae'r tirwedd deniadol yn tynnu cerddwyr, yn enwedig, i'r dref gydol y flwyddyn. Mae'r amrywiaeth o wasanaethau lletygarwch yn

gysylltiedig â thwristiaeth yn y dref, gyda chyn dafarndai'r goets fawr megis The Bear, yn darparu llety fel y maen nhw wedi gwneud ers degawdau.

Mae mannau agored, gwyrdd ar gyfer hamdden ffurfiol ac anffurfiol yn agos at ganol y dref a hefyd wrth ymyl yr ardal gadwraeth, yn dilyn coridor yr afon.

Mae prif faes parcio'r dref ychydig y tu allan i'r ardal gadwraeth, llawer ohono'n cael ei guddio gan yr adeiladau ar Beaufort a Standard Street. Caniateir parcio ar Beaufort Street a'r Stryd Fawr am gyfnodau byr ond mae hynny'n amharu'n weledol ar ansawdd yr ardal gadwraeth.

Mae adeilad CRIC a Clarence Hall ar Beaufort Street yn ffurfio hwb cymunedol, gyda CRIC yn darparu gwasanaethau ac yn fan cyfarfod i'r gymuned a Clarence Hall yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer digwyddiadau a chan grwpiau cymunedol. Mae nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn y dref gydol y flwyddyn hefyd, gan gynnwys yr Ŵyl Gerdded yn y Gwanwyn. Ychydig o fannau cyfarfod cyhoeddus yn yr awyr agored sydd yng nghalon canol y dref gyda llawer o Market Place yn cael ei gymryd gan y ffordd. Er gwaethaf hynny, mae pobl yn cymdeithasu yn y siopau, caffis ar y palmant ac ar yr ychydig o seddau sydd yng nghanol y dref. Yn gyffredinol, mae yno synnwyr cryf o ysbryd cymunedol.

12. MANNAU GWYRDD A BIOAMRYWIAETH

Mae mannau gwyrdd, cyhoeddus a phreifat, yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad y dref a hefyd i gadwraeth natur. Maen nhw hefyd yn cyfrannu at y golygfeydd o fewn y dref ac yn bwysig i leoliad y dref a'r adeiladau hanesyddol allweddol.

Mae'r mannau gwyrdd allweddol yn cynnwys:

- Y tiroedd o gwmpas Castell Crughywel
- Y parc ger Greenhill Villas
- Tiroedd hamdden a chaeau chwaraeon ffurfiol, Beaufort Road
- Dolydd Afon Wysg, gan gynnwys Safle Picnic Bullpit
- Mynwent Eglwys Sant Edmwnd
- Mynwent y Cyngor Tref
- Gerddi preifat gan gynnwys gerddi cefn eiddo ar Castle Road; tiroedd Cartref Nyrsio Greenhill; gardd Porthmawr ynghyd â'r ffordd wedi'i thirlunio at Ysgol Uwchradd Crughywel.

Tiroedd y Castell



Mynwent St Edmund

Mae yna lawer o enghreifftiau o goed aeddfed, unigol a grwpiau, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad y dref. Mae newidiadau tymhorol lliw a gwead y coed collddail hefyd yn rhoi gwahanol persbectif o'r dref ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Y ffawydden gopr a'r coed Yw ym mynwent Sant Edmwnd
- Y ffawydd aeddfed yn nhiroedd Dan y Castell
- Y grŵp syth o goed yn y parc ger Greenhill Villas
- Y Gastanwydden agosaf at y Gofeb
- Grwpiau o goed yn Nhiroedd y Castell
- Coed ar lannau Afon Wysg
- Coetir ar ochr gogleddol Afon Wysg ac i'r dwyrain o Bridge Street

Cofnodwyd nifer o rywogaethau gwarchodedig a / neu rywogaethau o bwysigrwydd mawr i gadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru yn ardal Crughywel. Mae'r rhain yn cynnwys dyfrgwn,

ystlumod (gan gynnwys yr Ystlum Bedol Leiaf, Pipistrelle a'r Ystlum Clustiog Brown), Glas y Dorlan, Tylluanod Gwyn, Gwiberod, Cnocell Fraith Leiaf a Draenogod.

Mae Afon Wysg yn nodwedd bioamrywiaeth bwysig, a hefyd ei llednentydd bychain, gan gynnwys Nant Cwmbeth a Nant Onneu i'r de. Mae Afon Wysg wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r Afon, a'i llednentydd, a'r llystyfiant ar eu coridorau, yn gynefin bywyd gwyllt pwysig gan gynnwys ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig. Er enghraifft, y dyfrgi yw un o'r nodweddion cymwys ar gyfer dynodi Afon Wysg fel Ardal Gadwraeth Arbennig.

Mae ardaloedd mawr o laswelltir ar dir hamdden Bullpit a thiroedd y castell yn ogystal ag ardaloedd llai trwy'r dref. Mae llai o dorri glaswellt ar ddwy ardal fwy er mwyn i flodau gwyllt ffynnu. Mae hynny o fudd i fywyd gwyllt, yn enwedig pryfed ac adar. Mae mwy o amrywiaeth o fathau o glaswellt a fflora yn yr ardal o laswelltir wedi'i lled gwella ar ochr gogleddol yr afon, i lawr yr afon o'r bont.

Mae llawer o'r gwrychoedd yn yr ardal gadwraeth yn cynnwys rhywogaethau gardd. Fodd bynnag, mae terfyn rhai o'r caeau bychan i'r de o Castle Road yn wrychoedd brodorol. Maen nhw'n gynefinoedd ac yn goridorau symud i fywyd gwyllt.

Blodau gwyllt yn nhiroedd y Castell

Safle bicnic/ Caeau Bullpit

Afon Wysg a'i choridor coediog



Ffigwr 18

Mannau Gwyrdd Allweddol

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

13. LLWYBRAU A SYMUDIADAU

Mae'r dref o boptu Cefnffordd yr A40, priffordd brysur dwyrain-gorllewin sy'n dilyn ffordd hanesyddol y goets fawr. Mae traffig yr ardal yn ymuno â hi o'r de dros Bont Crughywel a New Road. Ar rhai adegau o'r dydd mae'r traffig yn gallu bod yn drwm, gan greu amgylchedd anghyfforddus i gerddwyr a beicwyr. Mae cymaint o draffig hefyd yn amharu ar ansawdd a chymeriad y strydoedd a'r adeiladau. Ar ben yr ymyrraeth weledol a'r effaith ar gerddwyr, mae yna broblemau cysylltiedig megis sŵn a llygredd. Wrth gwrs, nid yw'r broblem hon yn unigryw i Grughywel. Mae yna strydoedd tawelach y tu hwnt i'r prif lwybrau megis Church Lane sy'n cysylltu'r Stryd Fawr â New Road, a Tower Street, sy'n cysylltu'r Stryd Fawr â Beaufort Street. Mae Bridge Street yn stryd un ffordd gul ond mae'n cael ei ddefnyddio gan gerbydau fel llwybr byr i'r Stryd Fawr a Castle Road, sy'n amharu ar un o'r strydoedd mwyaf deniadol a hanesyddol yn yr ardal gadwraeth.

Mae yna ychydig o lwybrau ar gyfer cerddwyr yn unig, sy'n creu cysylltiadau defnyddiol rhwng gwahanol rannau'r dref, gan gynnwys y llwybr rhwng yr eglwys a'r fynwent a'r llwybr sy'n croesi tiroedd y Castell. Weithiau mae'r llwybrau hyn mor gaeedig ac anodd eu goruchwylio nes eu gwneud yn llai deniadol i'w defnyddio ar adegau llai prysur o'r dydd. Byddai rhai o'r llwybrau cerdded yn elwa o welliannau megis wynebu a goleuo.

Mae'r mannau agored sy'n gyfleus i'r cyhoedd ac sy'n agos at ganol y dref yn hafan i gerddwyr i ffwrdd o'r traffig.

Mae'r llwybrau troed syth ar hyd Afon Wysg hefyd yn lle pleserus, di-draffig i gerddwyr.

Llwybr o New Road i Mill Street

Llywybr o Fynwent St Edmund i New Road

Llwybr trwy'r parc ger Green Hill Villas

Rhan o Church Lane i gerddwyr yn unig trwodd i'r Stryd Fawr

14. PROBLEMAU A CHYFLEOEDD

Mae yna nifer o asedau ffisegol mawr yn yr ardal gadwraeth bresennol, megis adeiladau rhestredig, treflun cymhleth a diddorol gydag adeiladau o gymeriad a gosodiad y tirlun o gwmpas. Fodd bynnag, dangosodd y gwaith gwerthuso rai problemau ac mae rhai o'r rhain hefyd yn cael eu dangos yng Nghynllun Cymunedol Crughywel. Mae rhestr o'r cryfderau a gwendidau isod.

Cryfderau:

- Mae gan Grughywel amgylchedd hanesyddol o ansawdd da gyda nifer arwyddocaol o adeiladau rhestredig yng nghanol y dref.
- Mae cyflwr cyffredinol y stoc adeiladau, hanesyddol a chyfoes, yn dda.
- Mae'r adeiladau rhestredig, sydd â lefel uchel o warchodaeth, ac adeiladau eraill hanesyddol sydd heb unrhyw hawliau datblygu, wedi cadw eu manylion pensaernïol, at ei gilydd.
- Mae'r dref yn Nyffryn Wysg ac mae tirwedd o ansawdd da o'i chwmpas.
- Mae'r siopau manwerthu, cryf ac amrywiol, siopau annibynnol yn bennaf, yn creu canol tref fywiog a phrysur.
- Dim ond ychydig o adeiladau gwag sydd yn y dref.
- Mae'r defnyddio'r garreg leol fel deunydd adeiladu'n cyfrannu at wahanolrwydd lleol.
- Mae cymuned weithgar yn y dref sydd â diddordeb mewn gwella'i hamgylchedd.
- Mae gan y dref ardaloedd sylweddol o fannau gwyrdd cyhoeddus sy'n ased i drigolion lleol, ymwelwyr a bywyd gwyllt.
- Cysylltiadau cerddwyr da ar draws y mannau agored.

Gwendidau:

- Ychydig o'r manylion pensaernïol wedi'u colli gan gynnwys ffenestri plastig modern wedi'u gosod yn lle ffenestri coed traddodiadol.
- Mae ychydig o'r waliau terfyn o gerrig wedi'u bylchu i greu mannau parcio, gan arwain at golli ychydig o'r diffiniad ar ymyl strydoedd.
- Mae ychydig o adeiladau negyddol mewn lleoliadau amlwg
- Colli neu ddifrodi arwynebau hanesyddol yn y maes cyhoeddus
- Pwysau oddi wrth ddatblygwyr i ymestyn yr anheddiad i'r cefn gwlad agored ar dir sy'n codi i'r gogledd o'r dref. Gallai hynny amharu ar ansawdd uchel lleoliad y dref.
- Mae cerbydau'n symud ac yn parcio yn tagu llawer o ganol y dref, sy'n tynnu oddi ar y strydlun hanesyddol ac yn ei gwneud yn anodd i gerddwyr symud.
- Mae rhai llwybrau a lonydd cerdded yn y dref yn dioddef o arwynebau a goleuo gwael.
- Mân annibendod gan gynnwys arwyddion safonol, camerâu cylch cyfyng, gwifrau, larymau lladron a rhai dodrefn stryd o ansawdd gwael.
- Mae ychydig o adeiladau'r dref yn dirywio ac yn amharu ar ansawdd ei hamgylchedd trefol.

15. ARGYMHELLION Y CYNLLUN RHEOLI

Er mwyn gallu talu sylw i'r problemau a nodir uchod, mae'r rhestr isod yn dangos gwahanol gynigion i geisio amddiffyn neu wella'r ardal gadwraeth, gydag awgrym o gorff arweiniol yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'n cynnwys hefyd fân newidiadau i ffiniau'r ardal gadwraeth.

CYNNIG	CYRFF ARWEINIOL
Cynigion ar gyfer datblygiadau newydd: Bydd cynigion datblygu'n cael eu hasesu yn ôl eu heffeithiau ar gymeriad, ymddangosiad a lleoliad yr ardal gadwraeth fel y nodir yn yr Arfarniad, a hefyd o ran polisïau cynllunio perthnasol eraill a chanllawiau cynllunio atodol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Yr Awdurdod)
Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn annog darpar ddatblygwyr a pherchnogion tai i wneud defnydd o wasanaeth cyn cais yr Awdurdod.	Yr Awdurdod
Gallai'r gymuned leol ystyried cynhyrchu Datganiad Dylunio er mwyn sicrhau fod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd yn adlewyrchu nodweddion penodol lleol y dref.	Cyngor Tref Crughywel a grwpiau cymunedol lleol (gyda chefnogaeth yr Awdurdod).
Colli manylion pensaernïol a mân newidiadau i adeiladau hanesyddol: Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn annog adfer nodweddion pensaernïol dilys os oes yna dystiolaeth gadarn o'r manylion gwreiddiol.	Yr Awdurdod, Cyngor Tref Crughywel a thrigolion lleol.
Cynhyrchu datganiad dylunio ar gyfer y dref (gweler uchod)	Cyngor Tref Crughywel a grwpiau cymunedol lleol (yn cael eu cefnogi gan yr Awdurdod).
Cynnal a thrwsio adeiladau: Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhoi cyngor ar drwsio a chynnal adeiladau a strwythurau hanesyddol neu'n cyfeirio ymholiadau'n uniongyrchol at ffynonellau o gyngor priodol.	Yr Awdurdod, perchnogion adeiladau
Bydd yr Awdurdod yn monitro cyflwr pob adeilad hanesyddol yn yr ardal gadwraeth ac, os bydd gofyn, yn gweithredu'n briodol i sicrhau eu dyfodol.	Yr Awdurdod
Pan fydd arian ar gael, bydd yr Awdurdod yn cynnig grantiau ar gyfer cynlluniau gwella addas os bydd y rhain o fudd i'r gymuned ehangach.	Yr Awdurdod, Cyngor Tref Crughywel a grwpiau cymunedol
Safleoedd ac adeiladau negyddol: O dan amgylchiadau priodol, ystyrir defnyddio deddfwriaeth mewn sefyllfaoedd ble mae adeiladau, strwythurau neu dir yn tynnu'n arwyddocaol oddi ar	Yr Awdurdod

CYNNIG	CYRFF ARWEINIOL
gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Os bydd cyfle i ail ddatblygu safleoedd negyddol heb unrhyw werth hanesyddol, bydd yr Awdurdod yn ceisio gwella'r safleoedd hyn trwy'r broses cynllunio.	
Arwynebau Hanesyddol Dylid cadw palmentydd, setiau a cherbiau cerrig hanesyddol ac os bydd angen eu trwsio, gan ddefnyddio technegau a deunyddiau hanesyddol. Dylid defnyddio cerrig naturiol ar gyfer palmentydd a cherbiau pan geir cyfle i'w gosod yn lle deunyddiau palmant modern.	Cyngor Sir Powys Perchnogion adeiladau [ar gyfer mannau ger adeiladau heb fod yn dir priffyrdd]
Mannau Cyhoeddus Bydd yr Awdurdod yn cefnogi mentrau i wella mannau cyhoeddus.	Cyngor Sir Powys, yr Awdurdod, Cyngor Tref Crughywel
Os bydd arian ar gael, bydd yr Awdurdod yn cynnig grantiau ar gyfer cynlluniau i wella mannau cyhoeddus os bydd meini prawf y cynlluniau hynny'n cael eu cyrraedd	Yr Awdurdod
Os gellir rheoli hyn trwy'r system cynllunio, bydd yr Awdurdod yn ceisio lleihau blerwch allanol ar adeiladau.	Yr Awdurdod
Anogir perchnogion adeiladau i baratoi rhestr o arwyddion modern, gwifrau, offer diogeled, goleuadau allanol ayb a chael gwared ar rai diangen.	Perchnogion adeiladau Cefnogaeth a chyngor gan yr Awdurdod
Datblygu cynllun goleuadau stryd cynhwysol pan geir cyfle i gael gwared ar offer goleuo arferol, iwtilitaraidd.	Cyngor Sir Powys, Cyngor Tref Crughywel
Gwella mannau trefol gan gynnwys Market Place (yn enwedig ger y Ffynnon Goffa) a chyffordd y Stryd Fawr, Bridge Street a Castle Road. Ystyried ffyrdd o dawelu traffig gyda rhywbeth gwahanol i farciau arferol ar y ffordd a bolardiau traffig.	Cyngor Sir Powys, Cyngor Tref Crughywel Cefnogaeth a chyngor gan yr Awdurdod
Gwella llwybrau cerdded ym mhob rhan o'r dref a'u cyswllt gyda'r ardal gadwraeth. Mae yna gyfle i gael gwared ar arwynebau modern a chael deunydd palmant naturiol yn eu lle a gwella goleuadau (gweler uchod hefyd).	Cyngor Sir Powys, Cyngor Tref Crughywel
Adwyon i'r ardal gadwraeth: Disgwylir i bob datblygiad barchu'r 'adwyon' i'r ardal gadwraeth: yn enwedig wrth ddod o'r de dros Bont Crughywel ac o'r dwyrain ar hyd Beaufort Street.	Yr Awdurdod

CYNNIG	CYRFF ARWEINIOL
Traffig a pharcio Nodwyd parcio ar y stryd fel problem sy'n amharu ar y drefwedd hanesyddol ac mae hefyd yn cael ei nodi fel problem yng Nghynllun Cymunedol Crughywel. Ystyriodd astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gan Gymdeithas Ddinesig Crughywel a'r Ardal y defnydd o faes parcio'r dref gan ddefnyddio data tocynnau gan Gyngor Sir Powys, perchnogion y maes parcio. Roedd hyn yn dangos dyddiau ac adegau pan oedd y maes parcio'n llawn. Er fod y maes parcio y tu allan i'r ardal gadwraeth, mae'n debyg o effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol pan fydd yn llawn a cherbydau'n cael eu parcio ar y stryd. Cefnogir unrhyw waith pellach i ychwanegu at yr astudiaeth barcio sydd eisoes wedi'i gwneud ac i roi mewnbwn i ddatblygu atebion addas a fyddai o fudd i'r gymuned leol, i ymwelwyr ac i'r amgylchedd hanesyddol.	Cyngor Tref Crughywel, Cyngor Sir Powys, Cymdeithas Ddinesig Crughywel a'r Ardal, yr Awdurdod
Mae cymaint o draffig ar rai o'r strydoedd cul nes bod eu cymeriad, eu defnydd a'u harwynebau hanesyddol yn cael ei niweidio. Mewn rhai mannau, mae'r arwyddion, marciau'r ffordd a'r offer stryd i reoli traffig yn weledol ymwthiol. Anogir cynlluniau cydymdeimladol a fydd yn tawelu traffig ac yn dangos i yrrwyr eu bod yn mynd i stryd lle mae angen gofal arbennig.	Cyngor Sir Powys,
Mannau gwyrdd Bydd mannau gwyrdd cyhoeddus yn cael eu gwarchod rhag datblygu a gwaith ansensitif cyhoeddus.	Yr Awdurdod
Cefnogir gwaith i wella mannau gwyrdd cyhoeddus megis plannu ychwaneg o goed brodorol, plannu rhagor o flodau peillio brodorol, cynlluniau i wella cynefinoedd bywyd gwyllt a gwella terfynau a llwybrau.	Cyngor Tref Crughywel, grwpiau cymunedol, cefnogaeth gan yr Awdurdod Cyngor Sir Powys,
Anogir hefyd dirfeddianwyr mannau gwyrdd cyhoeddus i gyflwyno cynlluniau tebyg.	Tirfeddianwyr lleol
Coed Fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer adolygu'r Ardal Gadwraeth, bydd yr Awdurdod yn ystyried a oes angen rhagor o Orchmynion Diogelu Coed yn yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad.	Yr Awdurdod, gan ymgynghori gyda rhanddeilaid
Newid Ffiniau: Ymysg y newidiadau i'r ffiniau mae cynnwys ochr orllewinol Llanbedr Road, a hefyd Rectory Road a Safle Bicnic Bullpit. Nid yw Glan yr afon a Llys yr Afon bellach yn yr Ardal Gadwraeth.	Yr Awdurdod

FFYNONELLAU GWYBODAETH

Archif Crughywel a'r Cylch, Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel

Gwefannau

https://www.uksouthwest.net/powys/crickhowell-castle/

http://history.powys.org.uk/school1/crickhowell/cricmenu

https://historicwales.gov.uk

www.cpat.org.uk

Llenyddiaeth ac erthyglau wedi'u cyhoeddi

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Buildings of Wales Powys: Montgomery; Radnorshire, and Breconshire	Scourfield R, Haslem R	2013
Landscape Character Assessment	Yr Awdurdod	2012
Brecon Beacons National Park Local Development Plan 2007 - 2022	Yr Awdurdod	2013
Historical Notes of Crickhowell and District	Crickhowell and District Civic Society	1983
Biodiversity in the towns of the National Park	Yr Awdurdod	2016
Domestic Service in a small Market Town: Crickhowell 1851 – 1901	Gant R	
Historic Settlement Survey – Brecon Beacons National Park	Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys	
Crickhowell Yesterday	Addis J	1992
Crickhowell Community Plan	Yr Awdurdod	2017

GEIRFA O DERMAU PENSAERNÏOL

Meini nadd – cerrig nadd o'r ansawdd gorau

Beili - wal neu amddiffynfa allanol o amgylch tŵr neu fwnt castell canoloesol

Ymyl bondo – astell, astell dywydd, yn amddiffyn distiau'r to, fel arfer, gan ddilyn rhediad y to

Plot bwrdais - is raniad o anheddiad a gynlluniwyd neu ran ohoni, fel arfer o faint safonol

Ffenestr gasment – ffenestr o bren neu fetel gyda cholynnau ochr

Clasurol – manylion tebyg i rai Groegaidd, Rhufeinig neu'r Dadeni

Ysgwydd – braced neu gorbel addurniedig

Corbel- - pigyn wedi'i adeiladau i wyneb wal i gynnal nodwedd fel bwa neu gwpwl

Cornis – rhan o entablature Clasurol, fel arfer ar y pen uchaf

Cyrsiau – cerrig neu friciau wedi'u gosod mewn haenau rheolaidd gyda'r uniadau'n cyfateb

Tal maen croes – dau neu fwy o dal meini'n cyfarfod ar ongl

Deintell- bloc sgwâr yn taflu am allan o dan fowldiad clasurol

Ffrâm drws – ffrâm ar gyfer drws

Ffenestr ddormer – ffenestr wedi'i gosod ar osgo'r to, fel arfer uwchben gwagle atig.

Nadd - manylyn ffenestr, drws neu gornel o gerrig neu frics o ansawdd gwell

Addurn Arddull Gothig – arddull bensaernïol Gothig lle mae'r manylion hyd yn oed yn fwy cymhleth

Ffenestr ffan – ffenestr uwchben drws

Wynebfwrdd - panel / bwrdd enw llorweddol ar flaen siop

Plas – tŷ mwy, bonheddig, o bensaernïaeth 'fanesol' fel arfer

Bar gwydr – rhaniad o bren neu fetel ar ffenestr, yn dal y gwydrau unigol

Adfywiad Gothig – diwedd y 18eg a dechrau'r 20fed ganrif, pensaernïaeth bwâu a manylion pigfain.

Talcennog – ongl to yn cael ei chreu gan lethr dwy ochr o do

Eionig – Arddull Glasurol gyda gyda throellau nodweddiadol neu gapan cyrn hwrdd

Gwyngalch – yn draddodiadol, gwyngalch oedd y gorchudd arferol ar waliau allanol a mewnol adeiladau hanesyddol. Roedd, ac y mae, gwyngalch yn cael ei ddefnyddi fel addurn ond, yn bennaf, mae'n haen sy'n gwarchod rendr a phlaster calch a cherrig.

Mwnt – tomen bridd amddiffynnol

Murdreth - treth a godid i adeiladu neu gynnal muriau trefi

Paraped – wal neu rwystr isel lle mae yna wagle, fel ar ymyl tô neu falconi

Pediment -–tal maen triongl, o bensaernïaeth glasurol

Pilastr – wal neu ragfur lle mae yna wagle, megis ar ymyl tô neu falconi

Conglfaen – conglfaen neu fric fwy, yn aml wedi'i hamlygu neu ei haddurno

Waliau rwbel – gwaith cerrig di-ffurf, di gwrs

Rhaglywyddiaeth – parhad o bensaernïaeth Sioraidd, yn ystod y 30 mlynedd gyntaf y 19eg ganrif, yn bennaf.

Cerrig wyneb – cerrig wedi'u naddu'n ofalus, yn aml gydag wyneb gweog

Plastr garw – plastr â wyneb bras

Cerrig rwbel – cerrig bras o wahanol ffurf

Ffenestr ffrâm – ffenestr bren wedi'i gosod yn fertigol gyda dwy ran yn agor, un uwchben y llall.

Estyll – pren tenau, derw neu gedrwydd fel arfer yn cael eu defnyddio yn lle llechi neu deils ar doeau

Codwr stôl – panel islaw ffenestr siop

Cwrs llinyn – band o addurn llorweddol ar wal allanol adeilad

Stwco – siment calchog neu waith plaster

Teracotta - crochenwaith caled, heb wydredd, a ddefnyddir ar gyfer manylion pensaerniol

Rendr Tyroleaidd- dull modern o roi render tywod a siment i greu wyneb bras, â gwead.

Ffenestr fenetaidd – ffenestr ganolg, fwaog, gyda ffenestri culach, pennau gwastad, o bobtu

Gwerinol – arddull adeiladu leol yn defnyddio'r hyn oedd ar gael, heb ddylanwad ffasiwn genedlaethol

ATODIAD 1

CYFYNGIADAU CYNLLUNIO YCHWANEGOL MEWN ARDALOEDD CADWRAETH

Mewn ardaloedd wedi'u dynodi'n Barciau Cenedlaethol, mae yna rai cyfyngiadau cynllunio ychwanegol mewn ardaloedd cadwraeth:

- Mae gofyn cael caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel adeilad neu ran o adeilad heb fod yn fwy na 115 metr giwb a heb eu rhestru. Mae'r awdurdod cynllunio lleol sy'n derbyn cais i ddymchwel angen, fel arfer, wybodaeth lawn ynghylch beth fwriedir ei wneud gyda'r safle ar ôl dymchwel. Bydd yn rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel mewn ardal gadwraeth gynnwys asesiad effeithiau treftadaeth*.
- dymchwel unrhyw giatiau, waliau, ffensiau neu reiliau fwy na 1 metr o uchder os yw'n terfynu â phriffordd, (gan gynnwys llwybr cyhoeddus neu lwybr ceffylau) dyfrffordd neu fan agored neu 2 fetr mewn mannau eraill.

Hefyd

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol hawl i amddiffyn coed a choetir drwy wneud Gorchmynion Diogelu Coed. Hefyd, mae'r awdurdod cynllunio lleol angen 6 wythnos o rybudd o fwriad i dorri coeden neu ganghennau ohoni. Rhaid i'r awdurdod cynllunio benderfynu, yn y cyfnod hwn, a yw'n dymuno gwneud Gorchymyn Diogelu Coed. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i goed llai na maint penodol nac i rai y gellir profi eu bod wedi, neu yn, marw neu'n beryglus.

*Mae canllawiau ar gyfer paratoi asesiad effeithiau treftadaeth ar gael ar wefan Cadw:

https://cadw.gov.wales/advice-support/placemaking/heritage-impact-assessment/heritage-impact-assessment

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch cyfyngiadau cynllunio mewn ardaloedd cadwraeth drwy gysylltu â'r tîm rheol i ar e-bost neu drwy ffonio - 01874 624437

ATODIAD 2 – NEWIDIADAU I FFINIAU'R ARDAL GADWRAETH



Crughywel – newidiadau a argymhellir i Ffiniau'r Ardal Cadwraeth

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

ATODIAD 3

ADEILADAU RHESTREDIG A HENEBION COFRESTREDIG YN ARDAL GADWRAETH CRUGHYWEL

Adeilad	**Gradd**
Pont Crughywel, New Road	I
Eglwys Blwyf Sant Edmwnd y Brenin a'r Merthyr, New Road / Church Lane	II*
Wal derfyn y iard yr eglwys yn rhedeg o Gwyn yr Afon at adwy iard y fynwent ddiweddar	II
The Bear Hotel, Stryd Fawr	ii
The Bear Hotel (Bar i'r Bear Hotel), Stryd Fawr	II
1 (Crickhowell Adventure. Gear), Stryd Fawr	II
2 (D N Stores), Stryd Fawr	II
2 (McGrath Pearce & Co), Stryd Fawr	II
Keith Miles & Co, 3 Stryd Fawr	II
5 Stryd Fawr	II
6 Stryd Fawr	II
11-13 (consecutive nos.) (H. J & D Webb & Sons), Stryd Fawr	II
14, Stryd Fawr	II
15, Stryd Fawr	II
16, Stryd Fawr	II
17 Stryd Fawr	II
18 (Cheese Press), Stryd Fawr	II
Latham House, 24 Stryd Fawr	II*
25 Stryd Fawr	II
29 Stryd Fawr	II

30 Stryd Fawr	II
44 Stryd Fawr	II
45 (Tafarn y Corn Exchange), Stryd Fawr	II
49 Stryd Fawr (ar gornel Tower Street)	II
50 (Banc Lloyds), Stryd Fawr	II
51 (Garrod's Newsagents), Stryd Fawr	II
52 (Jubilee House), Stryd Fawr	II
53 (Jubilee House), Stryd Fawr	II
55 (FE Richards/Floriana), Stryd Fawr	II
Dragon Hotel, Stryd Fawr	II*
Neuadd y Dref, Stryd Fawr	II*
Cambrian Arms Hotel, Stryd Fawr	II
Queen's Coffee Tavern, Stryd Fawr	II
Memorial Fountain, Stryd Fawr	II
Six Bells, New Road	II
Brick House, Church Lane	II
Bethabara Chapel, Bridge Street	II
Bridgend Inn, Bridge Street	II
Salmon Flat, Bridge Street	II
Salmon's House, Bridge Street	II
Talbot House, 2 Bridge Street	II
3 Bridge Street	II
5 Bridge Street	II
6 Bridge Street	II
8 Bridge Street	II
9 Bridge Street	II

10 Bridge Street	II
11 Bridge Street	II
13 Bridge Street	II
14 Bridge Street	II
15 Bridge Street	II
16 Bridge Street	II
18 Bridge Street	II
19, Bridge Street	II
28 Bridge Street	II
29 & 30 (Talbot House), Bridge Street	II
31 Bridge Street	II
32 Bridge Street	II
33 Bridge Street	II
36 Bridge Street	II
39 (Penaster), Bridge Street	II
Herbert Hall, Bridge Street	II
Addis Builder &Contractor (hen ysgol), Bridge Street	II
3 Lamb Lane	II
4 Lamb Lane	II
5 Lamb Lane	II
6 Lamb Lane	II
7 Lamb Lane	II
8 Lamb Lane	II
Castell Crughywel	I
Dan y Castell, Castle Road	II
Ivy Towers, Tower Street	II*

Cyn neuadd Ivy Towers, Tower Street	II
The Ivy Tower, Tower Street	II*
1, Tower Street	II
2 Tower Street	II
3 Tower Street	II
4 Tower Street	II
5 Tower Street	II
6 Tower Street	II
7 Tower Street	II
8 Tower Street	II
Beaufort Arms Hotel, Beaufort Street	II
Bank Buildings, 1 Beaufort Street	II
Bank Buildings, 2 Beaufort Street	II
Bank Buildings, 3 Beaufort Street	II
Banc y National Westminster, Beaufort Street	II
Gwar-y-castell, Beaufort Street	II
1 Beaufort Street	II
1a (Floriana), Beaufort Street	II
Blwch Ffôn 810901, Beaufort Street	II
1 Greenhill Villa, The Green, Beaufort Street	II
2 Greenhill Villa, The Green, Beaufort Street	II
1, Standard Street	II
2, Standard Street	II
3, Standard Street	II
Webb's Yard Warehouse, Standard Street	II
Upper House Farmhouse, Standard Street	II*

Little Malthouse, Standard Street	II*
The Malthouse, Standard Street	II*
Grahame Amey Ltd Workshop (cyn granar), Standard Street	II*
Twlc mochyn, Upper House Farm, Standard Street	II
Granar, Upper House Farm, Standard Street	II
Gazebo yn The Malt House	II*
Porthmawr House, Brecon Road	II
Porthmawr Gatehouse, Brecon Road	I
Coach House a wal derfyn ym Mhorthmawr, Brecon Road	II
Gazebo, Brecon Road	II
Tygwyn, Brecon Road	II
Pen-y-dre Cottage, Brecon Road	II
1, Llanbedr Road	II
2, Llanbedr Road	II
3, Llanbedr Road	II
4, Llanbedr Road	II
5, Llanbedr Road	II
6, Llanbedr Road	II
St. Davids House, Rectory Road	II
Ashfield, Rectory Road	II
HENEBION COFRESTREDIG	
Pont Crughywel	
Castell Crughywel	
Porthmawr Gatehouse	

ATODIAD 4

ASEDAU HANESYDDOL ALLWEDDOL HEB EU DYNODI

Capel Dan y Castell, Castle Road

30, New Road

24, New Road

Swn-yr Afon, New Road

9 – 15 New Road

1 Mill Street

The Old Police Station New Road

The Old School House, New Road

The Old School, Church Lane

Bryn Rhos, New Road

1 High Street

3 High Street

6 – 11 Pen y Dre, Brecon Road

Pen y Dre House, No. 8, Brecon Road

Porthmawr Lodge, Brecon Road *

6 & 7 High Street

10, 11 & 12 Standard Street

Adeilad cerrig i'r gorllewin o 10 Standard Street

5, 6 & 7 Standard Street

Melrose Standard Street

Llidiart Fynwent (rhwng y fynwent ac Eglwys Sant Edmwnd) *

Adeiladau cerrig ar ochr ogleddol Standard Street *

Castle Garage, Beaufort Street

Canolfan Adnoddau Crughywel

Clarence Hall, Beaufort Street

Post Office, 9 Beaufort Street

21 Castle Road

22 Castle Road

Wal hen ardd gegin Glanyafon (dymchwelwyd), Castle Road

Glanydwr, Llanbedr Road

7 – 35 Llanbedr Road (rhifau dilynnol)

* Efallai'r cwrtil hefyd oherwydd ei gysylltiad â'r prif adeilad rhestredig.